Awst 2025

# Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De Orllewin Cymru: Adolygiad Canol Tymor



SQW

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ........ 1
**1. Cyflwyniad** ........ 5
**2. Cyflwr y rhanbarth** ........ 8
**3. Asedau a galluoedd allweddol** ........ 17
**4. Adolygu ein Huchelgeisiau a'n Cenadaethau** ........ 25
**5. Y tair Cenhadaeth: Cynnydd a chyflawni yn y dyfodol** ........ 28
**6. Tri hanfod sylfaenol** ........ 35
**7. Llwybrau i fuddsoddi a chyflawni** ........ 40

**Cyswllt:**
**Ross Gill**
**Ffôn: 07837 872705**
**e-bost: rgill@sqw.co.uk**

**Ymwadiad**
Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno, ac ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.
Er bod SQW wedi defnyddio gofal a sgiliau rhesymol drwyddo draw, nid yw'n gallu gwarantu cywirdeb na chyflawnder y wybodaeth a ddarperir gan y cleient na thrydydd partïon, ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau cyfreithiol, masnachol neu ganlyniadau eraill sy'n deillio o'i defnydd.

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1. Yn 2022 mabwysiadodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru **Gynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol (CCERh)** newydd. Gan edrych ymlaen at 2030, roedd hwn yn amlinellu strategaeth uchelgeisiol ar gyfer datblygu economi'r rhanbarth, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth ac amlinellu sut y dylai busnesau, llywodraeth a phartneriaid eraill gydweithio i'w datblygu. Roedd y CCERh yn amlinellu uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer economi sy'n fwy "*cydnerth a chynaliadwy; mentrus ac uchelgeisiol; a chytbwys a chynhwysol*" ac fe'i strwythurwyd yn seiliedig ar dair Cenhadaeth, sef:

- Cenhadaeth 1: Sefydlu De Orllewin Cymru fel arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a datblygiad economi sero net
- Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i 'gwreiddio'
- Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal y cynnig 'profiad'.

2. Ers mabwysiadu'r CCERh mae llawer wedi'i gyflawni. Bu hefyd newidiadau pwysig yn y cyd-destun economaidd a pholisi gan gynnwys ethol Llywodraeth y DU newydd, ailstrwythuro mawr yn y diwydiant dur a chreu'r Porthladd Rhydd Celtaidd.

3. Yn y cyd-destun hwn, mae'r **Adolygiad Canol Tymor** yn edrych ar gyflwr presennol economi'r rhanbarth a'i hasedau allweddol ac yn ystyried cyflawniadau a rhwystrau diweddar, er mwyn llywio gweithgarwch dros weddill cyfnod y CCERh.

## Economi De Orllewin Cymru a'i hasedau allweddol

4. Yn 2023 cynhyrchodd economi De Orllewin Cymru £16.4 biliwn mewn gwerth ychwanegol gros, gan gefnogi 318,000 o swyddi. **Mae'r cyfnod ers y pandemig wedi bod yn heriol i'r rhanbarth**, oherwydd bod siociau allanol (gan gynnwys prisiau ynni uchel) wedi effeithio'n anghymesur ar rai o'i sectorau allweddol. Mae bwlch cynhyrchiant o 20% yn dal i fodoli rhwng y rhanbarth a'r DU gyfan sy'n anodd ei gau yn y tymor byr a chanolig, ac mae twf cynhyrchiant yn economi ehangach y DU wedi bod yn wan.

5. Fodd bynnag, **mae gan y rhanbarth asedau economaidd sylweddol sy'n cynnig potensial ar gyfer twf hirdymor**. Mae llawer o'r rheini a amlygwyd yn y CCERh wedi cael eu cefnogi gan fuddsoddiad diweddar – yn enwedig mewn perthynas â photensial ynni adnewyddadwy y rhanbarth. **Bydd nifer o alluoedd De Orllewin Cymru hefyd yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at flaenoriaethau Strategaeth Ddiwydiannol newydd y DU**, gan gynnwys ym meysydd ynni glân, gweithgynhyrchu uwch (gan gynnwys technoleg amaethyddol), technolegau digidol, diwydiannau creadigol, a gwyddorau iechyd a bywyd. O fewn y sectorau

hyn mae cyfraniadau arloesi prifysgolion y rhanbarth yn sylweddol, ac mae dadansoddiad o gryfderau'r rhanbarth yn amlygu cysylltiadau pwysig â rhannau eraill o Gymru a thu hwnt.

6. Fel y dywedwyd yn y CCERh, mae angen cydbwyso'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r cryfderau allweddol hyn â'r amodau ar gyfer mwy o gydnerthedd a thwf cynyddrannol ar draws y rhanbarth cyfan, gan nodi economi'r rhanbarth sy'n seiliedig ar fusnesau bach a chanolig a'r sgôp ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchiant ym mhob sector. Atgyfnerthir hyn gan y cyd-destun technolegol sy'n newid, gyda datblygiad cyflym deallusrwydd artiffisial yn creu cyfleoedd newydd ar y 'rheng flaen' ac ar draws yr economi, ac yn creu galw newydd am uwchsgilio ac ailhyfforddi'r gweithlu.

## Cyflawni Cenadaethau'r CCERh

7. Mae'r Uchelgeisiau a'r Cenadaethau a oedd yn graidd i'r CCERh yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ddilys. Mae tystiolaeth o gynnydd cadarnhaol mewn perthynas â'r tair Cenhadaeth:

- Mewn perthynas â **sefydlu De Orllwein Cymru fel arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a datblygiad economi sero net**, mae hyn yn cynnwys dynodiad y **Porthladd Rhydd Celtaidd**, gan ysgogi buddsoddiad ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau, yn ogystal â rhoi canolbwynt ar gyfer datblygu'r diwydiant ynni adnewyddadwy alltraeth (a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig ar gyfer y rhanbarth cyfan). Mae hefyd yn cynnwys cynnydd mewn datblygu prosiectau ynni mawr eraill y rhanbarth megis Parc Economi Gylchol Nant-y-caws a Datblygu Hyb Trafnidiaeth a Phorthladd Abertawe. Er bod datgarboneiddio diwydiannol wedi golygu dadleoli sylweddol, mae'r newid i gynhyrchu dur gyda charbon is ym Mhort Talbot yn mynd rhagddo, ac mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg mewn meysydd megis tanwyddau cynaliadwy.

- Mewn perthynas ag **adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i 'gwreiddio'**, mae'r rhaglen a ariennir gan Gronfa Ffyniant a Rennir y DU wedi canolbwyntio ar gefnogi twf yn yr economi ehangach, wedi'i gysylltu â chyfleoedd lleol. Bydd yn bwysig cynnal hyn wrth i'r Gronfa Twf Lleol newydd ddod i weithrediad. Fodd bynnag, mae'r dull rhanbarthol o gefnogi arloesedd a ragwelwyd yn y CCERh wedi bod yn anoddach i'w gyflwyno – er y bydd yn bwysig yng nghyd-destun gwneud y mwyaf o botensial cryfderau Strategaeth Ddiwydiannol y rhanbarth.

- Mewn perthynas â **thyfu a chynnal y cynnig 'profiad'**, mae rhai buddsoddiadau mawr wedi datblygu ers cyhoeddi'r CCERh, gan gynnwys Arena Abertawe newydd. Mae hyn wedi dod law yn llaw â chyfres o fuddsoddiadau yng nghanol trefi a dinasoedd y rhanbarth ac yn y cynnig treftadaeth ac ymwelwy.

## Canolbwyntio ar yr 'hanfodion sylfaenol'


8. Mae'r tair Cenhadaeth yn adlewyrchu cyfleoedd unigryw'r rhanbarth ac maent wrth wraidd y strategaeth. Fodd bynnag, mae angen eu cefnogi gyda **'hanfodion sylfaenol'** – ffactorau a fydd yn cefnogi'r tair Cenhadaeth. Mae tri hanfod sylfaenol wedi'u nodi a rhoddir mwy o amlygrwydd iddynt nag yn y CCERh gwreiddiol:

- **Cyflogaeth a sgiliau**, yng nghyd-destun anghenion gweithlu sy'n newid, y cyfleoedd a gyflwynir gan gryfderau'r rhanbarth a'r angen i alluogi mwy o bobl i gael mynediad i'r farchnad lafur
- **Cysylltedd cynaliadwy**, yn ddigidol ac o ran trafnidiaeth, gan gynnwys yr angen i wneud yr achos economaidd hirdymor dros fuddsoddi ym Metro De Orllewin Cymru
- **Safleoedd ac adeiladau**, gan gydnabod yr heriau sylweddol o ran hyfywedd sy'n parhau wrth gyflwyno datblygiadau strategol.

## Fframwaith strategol wedi'i diweddaru

9. Mae fframwaith strategol diwygiedig yn dwyn ynghyd yr Uchelgeisiau, Cenadaethau a'r hanfodion sylfaenol i arwain blaenoriaethau economaidd y rhanbarth:

**Ffigur 1: Fframwaith strategol wedi'i diweddaru**




## Llwybrau i fuddsoddi a chyflawni

10. Ochr yn ochr â'r Adolygiad Canol Tymor, mae'r **biblinell prosiectau** a ddatblygwyd ar gyfer y CCERh yn cael ei hadolygu a'i chydgrynhoi. Gan adeiladu ar lwyddiant buddsoddi hyd yn hyn (yn cynnwys trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe), efallai y bydd achos dros greu **cronfa**

**fuddsoddi** fwy hyblyg i gyd-fuddsoddi ochr yn ochr â’r sector preifat mewn prosiectau a fydd yn cyflawni’r Cenadaethau - ac efallai y bydd cyfle i edrych ar hyn yng ngweddill cyfnod y CCERh.

# 1. Cyflwyniad


**Adolygiad canol tymor o gynllun cyflawni economaidd rhanbarthol De Orllewin Cymru, a fabwysiadwyd yn 2022, yw hwn. Mae'n nodi sut mae economi'r rhanbarth wedi perfformio, gan amlinellu ei chyflawniadau allweddol a'r rhwystrau y mae dal angen mynd i'r afael â hwy, a rhoi asesiad newydd o flaenoriaethau hyd at 2030.**

## Cyflwyno De Orllewin Cymru…

1.1 Mae gan Dde Orllewin Cymru, sy'n ymestyn o Gastell-nedd Port Talbot yn y dwyrain i Sir Benfro yn y gorllewin, trwy Abertawe a Sir Gaerfyrddin, gyfleoedd a heriau economaidd nodedig a set unigryw o asedau naturiol a diwylliannol.

1.2 Mae'r rhanbarth yn ganolog i strategaeth ddiwydiannol y DU: ar flaen y gad o ran datgarboneiddio diwydiannol, mae'n cynnwys rhai o'i seilwaith a'i photensial ynni mwyaf arwyddocaol. Yn amgylcheddol, mae'r arfordir a'r cefn gwlad – gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog a Thirwedd Genedlaethol Gŵyr – yn cyfrannu at gynnig gwych i ymwelwyr ac ansawdd bywyd da. Yn ddiwylliannol, mae'r rhanbarth yn cwmpasu dinas brifysgol ddeinamig sy'n tyfu, sef Abertawe, rhwydwaith amrywiol ac unigryw o drefi gwledig a'r Gymraeg gynyddol fywiog.

**Ffigur 1-1: De Orllewin Cymru mewn cyd-destun**





*Ffynhonnell: SQW*

## … ac adolygiad y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol

1.3 Yn 2022, mabwysiadodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC) **Gynllun Cyflawni Economaidd De Orllewin Cymru** (CCERh). Nododd hwn strategaeth deng mlynedd i adeiladu economi ranbarthol fwy ffyniannus a chydnerth. Roedd yn canolbwyntio ar dair **Uchelgais** (datganiadau am natur economi De Orllewin Cymru yr ydym am weithio tuag ati), wedi'u cefnogi gan dair **Cenhadaeth** ategol:

**Ffigur 1-2: Fframwaith strategol gwreiddiol y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol**




1.4 **Mae'r Uchelgeisiau a'r Cenadaethau yn parhau i fod yn ganolog i'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth**. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, mae llawer wedi'i gyflawni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bydd buddsoddiadau trawsnewidiol, megis y Porthladd Rhydd Celtaidd, yn dwyn ffrwyth economaidd sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, bu newidiadau pwysig hefyd ers mabwysiadu'r CCERh, gydag (er enghraifft) ethol Llywodraeth y DU newydd ac agenda twf wedi'i hailffocysu, a chyflymder cyflymach newid technolegol, yn enwedig mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial.

1.5 Yn y cyd-destun hwn, comisiynodd y CJC **Adolygiad Canol Tymor** o'r CCERh. Gan edrych ymlaen at weddill y degawd, mae'r ddogfen hon yn diweddaru'r strategaeth wreiddiol. Mae'n amlinellu sut mae'r economi wedi esblygu ers cynhyrchu'r CCERh, yr hyn a gyflawnwyd, a goblygiadau newidiadau sylweddol mewn polisi, technoleg a'r amgylchedd. Gan ystyried hyn, mae'n nodi beth mae hyn yn ei olygu i flaenoriaethau economaidd a rennir yn y rhanbarth ac yn amlinellu sut y byddwn yn mesur cynnydd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2030.

**1.6** Er bod llawer wedi'i gyflawni, nid cofnod o gyflawniadau yn unig yw'r Adolygiad Canol Tymor. Mae'r newid i economi ranbarthol fwy gwyrdd, 'gwerth uwch' a mwy cynhwysol yn ymdrech hirdymor sy'n galw am newidiadau strwythurol heriol - ac rydym wedi wynebu anawsterau economaidd byd-eang anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, rydym yn nodi'r rhwystrau i dwf a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain, yn ogystal â'n prif gyfleoedd.

## Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i drefnu mewn chwe phrif bennod:

- Mae Pennod 2 yn ystyried 'cyflwr economaidd presennol y rhanbarth', gan nodi newidiadau yn y dirwedd economaidd ers cynhyrchu'r CCERh ac ystyried y goblygiadau ar gyfer strategaeth ranbarthol.

- Mae Pennod 3 yn edrych ar asedau a galluoedd economaidd allweddol y rhanbarth, gan ddiweddaru'r dadansoddiad yn y CCERh a'u hadolygu yng ngoleuni Strategaeth Ddiwydiannol ddiweddar y DU.

- Gan ystyried Penodau 2 a 3, mae Pennod 4 yn nodi 'fframwaith strategol' wedi'i ddiweddaru - y themâu a'r blaenoriaethau lefel uchel a fydd yn arwain gweithgaredd dros y blynyddoedd nesaf.

- Gan adeiladu ar hyn, mae Pennod 5 yn edrych yn fanylach ar y tair 'Cenhadaeth' a oedd yn arwain y CCERh gwreiddiol ac a oedd wrth wraidd y strategaeth. Mae'n nodi'r hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â phob un o'r rhain, lle mae rhwystrau i gynnydd, a'r hyn sydd eto i'w wneud.

- Gan gefnogi'r tair Cenhadaeth, mae Pennod 6 yn cyflwyno tri 'hanfod sylfaenol' sy'n bwysig ar draws yr economi a bydd angen mwy o ffocws uniongyrchol arnynt yng ngweddill cyfnod y CCERh. Mae'r rhain yn ymwneud â *chyflogaeth a sgiliau*, *cysylltedd cynaliadwy* a *safleoedd ac adeiladau*.

- Yn olaf, mae Pennod 7 yn ystyried y mecanweithiau y bydd newid yn digwydd drwyddynt – gyda'r nod o sicrhau buddsoddiad preifat yn ogystal â buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol – a sut y gellir monitro cynnydd.

# 2. Cyflwr y rhanbarth

**Mae'r cyflawni ers 2022 wedi digwydd yn erbyn cefndir macro-economaidd heriol, ac yng nghyd-destun tueddiadau sy'n cyflymu sy'n trawsnewid strwythur yr economi ranbarthol - yn enwedig mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial a datgarboneiddio. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o berfformiad economaidd y rhanbarth yn hanner cyntaf y degawd.**

## Daearyddiaeth economaidd y rhanbarth

**2.1** Gyda phoblogaeth o tua 705,000 ar draws pedair sir, mae De Orllewin Cymru yn rhanbarth amrywiol. Yn hanesyddol, roedd llawer o'r ardal yn arloeswr diwydiannol, a ysgogwyd i ddechrau gan y diwydiannau glo a metelau ac yn ddiweddarach gan betrocemegion a gweithgynhyrchu. Dros y 40 mlynedd diwethaf mae newid economaidd wedi golygu cyfnod heriol o ail-addasu - un sy'n dal i ddigwydd, fel y gwelir yn nhrawsnewidiad y diwydiant dur. Ond mae treftadaeth ddiwydiannol y rhanbarth wedi gadael etifeddiaeth bwysig, gan gynnwys galluoedd ymchwil ac arloesi blaenllaw, ei sector gweithgynhyrchu uwch mawr a chymeriad a ffurf ei threfi a'i ddinasoedd.

**2.2** Gan adlewyrchu dosbarthiad poblogaeth y rhanbarth a'i ddatblygiad diwydiannol hanesyddol, mae'r crynodiadau mwyaf o gyflogaeth yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe. Mae Abertawe ei hun yn cyfrif am tua 40% o swyddi yn Ne Orllewin Cymru (ac mae'n brif gyrchfan i gymudwyr), ac mae'r ardal o amgylch Bae Abertawe a Llanelli wedi'i diffinio yn *Cymru'r Dyfodol* fel 'Ardal Twf Cenedlaethol' ar gyfer swyddi a thai newydd[1]. Mae dwyrain y rhanbarth hefyd yn cynnwys crynodiad nodedig a helaeth o weithgarwch gweithgynhyrchu o amgylch Port Talbot, yn ogystal â rhai o safleoedd strategol pwysicaf Cymru ar gyfer datblygiad economaidd.

**2.3** Ymhellach i'r gorllewin, mae Caerfyrddin a Hwlffordd yn ganolfannau rhanbarthol allweddol sy'n cefnogi economi wledig a diwydiant bwyd helaeth. Mae ansawdd amgylcheddol yn ased craidd, gyda'r rhanbarth yn cynnwys dynodiadau amgylcheddol helaeth, gan gynnwys y ddau Barc Cenedlaethol a'r Dirwedd Genedlaethol, a gwarchodaeth arbennig ar hyd llawer o'r arfordir. Mae'r ansawdd amgylcheddol hwn yn cefnogi economi ymwelwyr a chreadigol fawr a phwysig sy'n tyfu, yn ogystal â rhoi buddion sylweddol o ran lles i'r trigolion lleol. Mae'r Gymraeg hefyd yn rhan bwysig o hunaniaeth leol, wedi'i hatgyfnerthu gan fuddsoddiad diweddar ym mhencadlys S4C yng Nghaerfyrddin.

[1] Llywodraeth Cymru (Chwefror 2021), Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi 28. Mae Polisi 29 yn diffinio Caerfyrddin a Threfi'r Ddau Gleddau (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro) fel 'Ardaloedd Twf Rhanbarthol'

**2.4** Mae De Orllewin Cymru yn chwarae rhan hollbwysig yn sicrwydd ynni'r DU, mater sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg ers cyhoeddi'r CCERh. Mae tua 20% o'r cyflenwad nwy cenedlaethol yn cael ei gludo o'r terfynellau nwy naturiol hylifedig yn Sir Benfro, gyda'r sir yn cynnwys un o ddim ond chwe phurfa olew yn y DU. Fel y nododd y CCERh, mae gan y rhanbarth hefyd botensial ynni adnewyddadwy o arwyddocâd trawsnewidiol, yn enwedig mewn perthynas ag ynni gwynt alltraeth arnofiol. Mae cysylltu'r potensial ynni hwn â gallu diwydiannol y rhanbarth wrth wraidd y weledigaeth ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd, gan ddod â phorthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot ynghyd.

**2.5** Mae cysylltiadau y tu hwnt i'r rhanbarth yn bwysig hefyd. Mae porthladdoedd Abergwaun a Doc Penfro yn darparu'r prif borth rhwng de'r DU ac Iwerddon, ac mae rhai o'r cyfleoedd yn y Môr Celtaidd yn cael eu rhannu ag Iwerddon a De Orllewin Lloegr. Wrth edrych tua'r dwyrain, mae cysylltiadau cryf (a llifau cymudwyr pwysig) rhwng y clystyrau gweithgynhyrchu ym Mhort Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr cyfagos; materion a rennir ar draws y Cymoedd a sylfaen ddiwydiannol De Cymru; a mynediad cymharol hawdd at gyfleoedd yng Nghaerdydd a thu hwnt. Mae rhai o'r cysylltiadau allanol hyn wedi cryfhau ers cynhyrchu'r CCERh, fel y mae'r adolygiad hwn yn ei ddangos.

## Y rhagolygon economaidd tymor canolig

**2.6** Datblygwyd y CCERh fel canlyniad i bandemig Covid-19 a'r crebachiad economaidd llym a ddaeth yn ei sgil. Yn dilyn diwedd y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus fe wnaeth yr economi 'adfer' yn gryf, er bod hynny ochr yn ochr â chwyddiant uwch a phwysau ar y gadwyn gyflenwi ac – yn arbennig o bwysig ar lefel leol – newidiadau strwythurol parhaol mewn arferion defnyddwyr yn effeithio ar ganol trefi a dinasoedd.

**2.7** Ers hynny, mae economi'r DU wedi wynebu anawsterau sylweddol, ac ni ragwelwyd rhai ohonynt pan baratowyd y CCERh. Mae'r rhain yn cynnwys y rhagolygon sicrwydd rhyngwladol sy'n gwaethygu a'r cynnydd canlyniadol mewn prisiau ynni, sydd wedi bod yn arbennig o arwyddocaol i ddefnyddwyr diwydiannol y DU[2]; ac ansicrwydd masnach ryngwladol yn dilyn gosod tariffau gan yr Unol Daleithiau. Yn fwy cyffredinol, mae twf cynhyrchiant cymharol wan y DU wedi bod yn barhaus ers yr argyfwng ariannol.

**2.8** Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld twf CMC real o 1.2% yn 2025/26, gan godi i 1.8% erbyn 2029/30[3]. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 2% y flwyddyn yn y 2010au a 2% yn y 1990au. Rhagwelir y bydd cynhyrchiant (h.y. gwerth allbwn am bob awr a weithir, a'r ffactor allweddol sy'n pennu safonau byw sy'n codi dros y tymor hir) yn tyfu ar gyfradd flynyddol o 0.5% yn 2025/26, gan godi i 1.3% erbyn diwedd y degawd.

**2.9** Mae'r rhagolwg macro-economaidd heriol hwn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer ffocws polisi parhaus ar dwf economaidd, y mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio ato fel "*prif genhadaeth y*

[2] DESNZ (2025), International industrial energy prices
[3] OBR (Mawrth 2025), Economic and Fiscal Outlook

*Llywodraeth*"[4]. Dylai De Orllewin Cymru - a'r CCERh - chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn trwy brosiectau gwerth uchel, mabwysiadu technoleg a dulliau newydd ar gyfer buddsoddiad preifat.


## Cyflwr y rhanbarth: Perfformiad economaidd diweddar

**2.10** Roedd *Adolygiad Tirwedd Economaidd a Strategol* yn cyd-fynd â'r CCERh a oedd yn cynnwys trosolwg o berfformiad economaidd diweddar y rhanbarth. Mae'r paragraffau canlynol yn diweddaru hyn, gan roi cipolwg ar 'gyflwr y rhanbarth'. Er bod y rhain yn adrodd am newidiadau yn y data ers cynhyrchu'r CCERh, ni ddylid darllen y rhain fel adlewyrchiad o 'effeithiolrwydd' y CCERh: mae data swyddogol bob amser yn cael ei gyhoeddi gydag oedi amser sylweddol, ac fel y mae'r rhagolygon tymor canolig uchod yn ei ddangos, dylanwadir ar berfformiad rhanbarthol gan dueddiadau byd-eang a chenedlaethol ehangach. Fodd bynnag, gall golwg ffres ar y data helpu i amlygu ble mae heriau a chyfleoedd sydd angen ffocws newydd.

### Mae twf swyddi wedi dychwelyd, ond mae heriau yn dal i fod yn y farchnad lafur

**2.11** Yn y cyfnod yn arwain at gynhyrchu'r CCERh, gwelodd y rhanbarth dwf cryf mewn swyddi - gyda chynnydd o 20,000 mewn swyddi rhwng 2013 a 2019. Arweiniodd y pandemig at grebachiad sydyn mewn cyflogaeth (er iddo gael ei liniaru gan amrywiol fesurau'r llywodraeth ar y pryd).

**Ffigur 2-1: Twf mewn swyddi (2010=100)**




*Ffynhonnell: SYG,, Jobs Density*

**2.12** Ers hynny, bu dychweliad i dwf, gyda thua 11,000 o swyddi wedi'u creu rhwng isafbwynt 2021 a 2023. Ond **mae twf ôl-bandemig wedi bod ychydig yn llai yn Ne Orllewin Cymru nag yn y DU gyfan**: erbyn 2023, roedd tua 318,000 o swyddi yn y rhanbarth, o'i gymharu â 322,000 ar anterth 2019.

**2.13** Mae **tystiolaeth barhaus hefyd o 'gapasiti sbâr' yn y farchnad lafur**. I ryw raddau, gallem ddisgwyl twf swyddi ychydig yn arafach yn Ne Orllewin Cymru, o ystyried y twf arafach yn y boblogaeth 'oedran gweithio'. Ond mae dwyseddau swyddi (nifer y swyddi fesul preswylydd oedran gweithio) hefyd yn parhau i fod yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU - gan gynnwys

[4] Llywodraeth y DU (2024), Cynllun ar gyfer Newid

o fewn Abertawe, er gwaethaf pwysigrwydd y ddinas fel canolfan ranbarthol a'i chymudo net i mewn[5].

2.14 **Mae llai o bobl yn economaidd weithgar nag oedd cyn y pandemig**. Am sawl blwyddyn, roedd y bwlch gweithgarwch economaidd rhwng De Orllewin Cymru a gweddill y DU wedi bod yn cau. Ond ledled y wlad gwelwyd gostyngiad mewn gweithgarwch ar ôl 2020: mae gwrthdroi hyn wedi'i amlygu fel blaenoriaeth polisi cenedlaethol[6]. Yng Nghymru, mae'r bwlch wedi tyfu, wedi'i gysylltu'n rhannol â chyfraddau uwch o afiechyd[7]. Yn Ne Orllewin Cymru, roedd 73.6% o'r boblogaeth 16-64 oed yn economaidd weithgar yn 2024, o'i gymharu â 78.5% yn y DU. **Byddai cynyddu cyfraddau gweithgarwch i gyfartaledd y DU yn dod â thua 21,000 o bobl i'r farchnad lafur.**

2.15 Er gwaethaf y dystiolaeth hon o gapasiti'r farchnad lafur, **mae prinder sgiliau a thagfeydd a adroddir yn gyffredin**. Mae'r rhain wedi'u hamlygu'n arbennig gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â pheirianneg ac adeiladu ac wedi'u cysylltu â rhai o'r prosiectau mawr (megis y rheini sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd) y mae'r rhanbarth yn debygol o'u gweld dros yr ychydig flynyddoedd nesaf[8]. Mae materion allweddol yn ymwneud â'r gweithlu'n heneiddio a lefelau uchel o alw am weithwyr yn eu lle o fewn poblogaeth 'oedran gweithio' sy'n tyfu'n araf, a chanfyddiadau a dealltwriaeth o gyfleoedd gyrfa, y mae'r rhaglen Sgiliau a Thalent a ariennir drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

2.16 **Mae lefelau cymwysterau'r gweithlu yn parhau i wella.** Yn 2024, roedd 42% o'r boblogaeth oedran gweithio wedi'u cymhwyso i RQF4 neu uwch: mae bwlch o bum pwynt canran yn dal i fod gyda chyfartaledd y DU, er bod Abertawe bellach yn perfformio'n well na'r darlun cenedlaethol. Ond mae cyfraddau cyfranogiad ôl-16 yn gostwng, gyda bwlch sy'n tyfu rhwng Cymru a'r DU gyfan[9].

### Mae allbwn wedi dangos crebachiad diweddar, o fewn ail-aliniad strwythurol parhaus

2.17 **Cynhyrchodd De Orllewin Cymru gyfanswm allbwn (wedi'i fesur mewn gwerth ychwanegol gros (GYG)) o £16.4 biliwn yn 2023**. Mewn termau real, crebachodd GYG y rhanbarth gan 3% rhwng 2018 (y llinell sylfaen y cyfeirir ati yn y CCERh) a 2023. Gostyngodd allbwn gweithgynhyrchu gan 21%, gyda'r crebachu mwyaf mewn 'gweithgynhyrchu metelau sylfaenol a chynhyrchion metel' (sy'n cynnwys dur, er bod y data'n rhagflaenu'r newid yn Tata) a 'gweithgynhyrchu cynhyrchion trydanol a pheiriannau'. Crebachodd manwerthu, a oedd wedi tyfu'n gryf iawn rhwng 2013-18, yn sydyn hefyd gan adlewyrchu'r pwysau

[5] Dwyseddau swyddi yn 2023 oedd 0.75 o swyddi fesul preswylydd yn Ne Orllewin Cymru, 0.77 yng Nghymru a 0.86 ym Mhrydain Fawr. Dwysedd swyddi Abertawe oedd 0.8, o'i gymharu â 0.97 yng Nghaerdydd.
[6] Gweler DWP / Trysorlys EM /DfE (2024), Papur Gwyn Cael Prydain i Weithio
Sefydliad Bevan (2025), Cael Prydain i Weithio: Gweithgaredd economaidd ac afiechyd
[8] Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De Orllewin Cymru (2024), Adroddiad sgiliau Sir
[9] Prifysgolion Cymru (2025), Pwyllgor Materion Cymreig: Briffio Prifysgolion Cymru


strwythurol y mae'r sector yn ei wynebu. Ond tyfodd rhai sectorau eraill yn eithaf cryf, yn enwedig gweithgareddau trafnidiaeth a gwybodaeth a chyfathrebu.

**2.18** Ac eithrio manwerthu, mae'r patrwm cyffredinol o fewn sectorau o dwf a chrebachiad yn adlewyrchu tueddiadau sydd wedi parhau ers sawl blwyddyn, gyda gostyngiad graddol yng nghyfran allbwn cynhyrchu a chynnydd mewn gwasanaethau. Adlewyrchir hyn yn y newid mewn cyflogaeth dros yr un cyfnod, gyda'r twf cyflymaf ym meysydd iechyd a gwaith cymdeithasol, gwasanaethau gweinyddol a busnes a thrafnidiaeth a storio, wedi'i wrthbwyso gan leihad sylweddol mewn manwerthu a chyfanwerthu[10]. Serch hynny, mae gweithgynhyrchu yn parhau i fod yn bwysig i economi'r rhanbarth, gan gyfrif am 9% o'r GYG ar draws y rhanbarth (14% yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Benfro[11]) a thua 24,000 o swyddi, sy'n cyfateb i 8% o gyfanswm cyflogaeth.

### Mae cynhyrchiant wedi cynyddu, ond mae bwlch sylweddol gyda gweddill y DU

**2.19** **Roedd cynhyrchiant (GYG a gynhyrchwyd fesul swydd wedi'i llenwi) oddeutu £51,800 yn 2023,** tua 78% o gynhyrchiant yn y DU gyfan, ac ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r bwlch cynhyrchiant wedi bod yn barhaus dros amser, ac mae'n ddigyfnewid i bob pwrpas ers llinell sylfaen 2018 y cyfeirir ati yn y CCERh. Nid yw'r parhad hwn yn syndod, gan fod gwahaniaethau cynhyrchiant rhwng rhanbarthau yn tueddu i newid yn araf[12]. Mae bwlch y rhanbarth gyda chyfartaledd y DU yn cael ei rannu (er nad yw bob amser i'r un graddau) gyda'r rhan fwyaf o ranbarthau dinas eraill sydd â threftadaeth ddiwydiannol[13].

**Ffigur 2-2: Cynhyrchiant (GYG fesul swydd wedi'i llenwi, £)**




*Ffynhonnell: SYG, Pris cyfredol (wedi'I lyfnhau) GYG(B) fesul swydd wedi'I llenwi*

**2.20** Mae twf cynhyrchiant yn amod angenrheidiol (er nad yw o reidrwydd yn ddigonol) ar gyfer datblygiad economaidd cynaliadwy: dylai allbwn uwch fesul gweithiwr drosi'n gyflog a

[10] Roedd gostyngiad mawr hefyd, yn ôl pob golwg, mewn cyflogaeth ym meysydd llety a gwasanaeth bwyd, er bod y sector hwn wedi gweld twf mewn cyflogaeth dros y tymor hwy. Mae'n debygol y bydd y crebachiad yn cael ei ysgogi gan ganlyniadau Covid a chostau cynyddol.
[11] Mae 'Gweithgynhyrchu' yn cynnwys puro olew a gweithgareddau cysylltiedig, sy'n cyfrif am bron i 80% o allbwn gweithgynhyrchu Sir Benfro.
[12] Oherwydd bod y rhanbarthau hynny ar y 'rheng flaen' yn parhau i dyfu, mae angen twf *uwch* cynaliadwy ar ardaloedd sy'n llusgo ar ei hôl hi er mwyn dal i fyny
[13] Mae gan bob rhanbarth dinesig yn Lloegr nad ydynt yn Llundain (ar wahân i Fryste/Gorllewin Lloegr), a Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, gynhyrchiant is na chyfartaledd y DU, er enghraifft - er bod pob un ychydig yn fwy cynhyrchiol na De-orllewin Cymru

safonau byw uwch. O ganlyniad, mae'r CCERh, fel Llywodraethau'r DU a Chymru, yn rhoi pwyslais cryf ar gynyddu cynhyrchiant.

**2.21** Nododd y CCERh rai ysgogwyr penodol cynhyrchiant cymharol isel, gan gynnwys y newid strwythurol o weithgynhyrchu gwerth cymharol uchel i wasanaethau gwerth is[14], a'r mathau o weithgareddau sy'n digwydd o fewn sectorau (yn nodweddiadol, bydd gweithgareddau pencadlys, ymchwil a datblygu, ac ati yn cynhyrchu allbwn uwch fesul gweithiwr). Fodd bynnag, nododd hefyd fod enillion o ran cynhyrchiant i'w gwneud ledled yr economi, gan gynnwys mewn gweithgareddau sy'n aml yn cael eu hystyried yn 'werth is', trwy fabwysiadu technoleg, systemau rheoli gwell, ac yn y blaen. Bydd hyn yn bwysig i Dde Orllewin Cymru, o ystyried absenoldeb cymharol cwmnïau mwy, ac mae'n atgyfnerthu ffocws deuol ar gynyddu stoc a maint cwmnïau ar y 'rheng flaen' a chefnogi twf ac entrepreneuriaeth yn gyffredinol.

### Mae cyfanswm y stoc busnes wedi bod yn statig, ond mae dangosyddion cadarnhaol o entrepreneuriaeth

**2.22** **Roedd 28,000 o fusnesau (a fesurir fel 'unedau lleol') yn 2024.** Yn unol â'r DU a Chymru gyfan, mae'r niferoedd wedi gostwng ychydig ers y pandemig, gyda thwf tymor hwy ychydig yn is yn Ne Orllewin Cymru nag mewn mannau eraill. Mae cyfraddau goroesiad busnesau ar gyfer busnesau a ddechreuodd yn 2018 ac yn ddiweddarach hefyd yn is yn y rhanbarth nag yn y DU yn gyffredinol.

**2.23** Mae 'dwysedd menter' hefyd yn is, gyda thua 662 o fusnesau am bob 10,000 o bobl yn 2024, o'i gymharu â 739 ledled y DU. Fodd bynnag, mae data arolwg yn dangos cynnydd mewn entrepreneuriaeth cam cynnar (h.y. pobl sy'n ystyried, neu yn y broses o ddechrau busnes)[15]

**2.24** Adroddodd y CCERh gynnydd rhagorol ers y strategaeth flaenorol o ran cyflwyno **cysylltedd digidol gwell**. Mae hyn wedi parhau ers hynny, gyda'r Rhaglen Seilwaith Digidol gwerth £55 miliwn a ariennir drwy'r Fargen Ddinesig yn sicrhau mynediad i'r cymunedau gwledig anoddaf eu cyrraedd ac yn buddsoddi mewn cysylltedd sy'n gallu defnyddio gigabit i safleoedd economaidd mawr. Er bod rhaniad yn dal i fodoli rhwng y trefol a'r gwledig, roedd 63% o safleoedd yn Sir Benfro a 65% yn Sir Gaerfyrddin yn gallu cael mynediad at gyflymder gwibgyswllt erbyn 2025, o'i gymharu â threiddiad isel iawn adeg y CCERh[16].

**2.25** Ers paratoi'r CCERh, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth drafnidiaeth, *Llwybr Newydd*, sy'n nodi ffocws cryfach ar **drafnidiaeth gynaliadwy** yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a'r dull 'canol trefi yn gyntaf' o ddatblygu a flaenoriaethwyd yn *Cymru'r Dyfodol*. Yn y cyd-destun hwn, mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft newydd wedi'i

[14] Gweler Polisi Arloesi Diwydiannol Prifysgol Caergrawnt/Caergrawnt (2022), Understanding sectoral sources of aggregate productivity growth: A cross-country analysis
[15] Mark Hart/ Llywodraeth Cymru (2024), Adroddiad Monitro Entrepreneuriaeth Byd-eang Cymru 2023.
[16] Ofcom, Connected Nations 2025. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yw 79% ac 89% yn y drefn honno, o'i gymharu â ffigurau cenedlaethol o 77% ar gyfer Cymru ac 85% ar gyfer y DU.

ddatblygu, ac mae cynigion yn parhau i gael eu datblygu ar gyfer Bae Abertawe a Metro De Orllewin Cymru. Mae buddsoddiad hyd yma yn parhau i fod yn gyfyngedig - ond mae cyflawniad presennol system ranbarthol wedi'i thrawsnewid yn Rhanbarth Prifddinas Caerdydd yn dangos potensial ar gyfer dull mwy uchelgeisiol, a nodir yn fanylach ym Mhennod 6.

### Anghydraddoldebau Sylweddol a Pharhaus

**2.26** Ar draws Cymru, mae cyfran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi wedi bod yn gyffredinol sefydlog am y ddau ddegawd diwethaf, ac yn gyffredinol yn uwch nag yng ngwledydd eraill y DU, gan adlewyrchu effaith ffactorau strwythurol ac ar draws yr economi, ac wedi'i waethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan brisiau ynni uchel a phwysau costau byw.

**2.27** Ar draws y rhanbarth, mae crynodiadau o anfantais yn sylweddol, yn bennaf ym mhrif ganolfannau trefol Abertawe, Llanelli, Castell-nedd, Port Talbot a Doc Penfro, ac yn y Cymoedd uchaf. Mae llawer o'r rhain yn barhaus dros amser, er ar draws y rhanbarth mae cynlluniau adfywio uchelgeisiol – megis Trawsnewid Tyisha yn Llanelli a'r rhaglen ôl-osod gynhwysfawr ym Mhenderi yn Abertawe – wedi dod ymlaen yn llwyddiannus. Ond er bod anfantais yn aml wedi'i chrynhoi'n ofodol, mae'n aml wedi'i wasgaru – mae gan Sir Benfro un o gyfraddau tlodi plant uchaf Cymru, er enghraifft, wedi'i ysgogi'n bennaf gan gyffredinolrwydd cyflog isel eang[17].

**2.28** Mae ymchwil diweddar yn tynnu sylw at y rôl sydd gan rwystrau i waith mewn creu tlodi, gan atgyfnerthu her lefelau anweithgarwch economaidd cynyddol a amlygwyd yn gynharach (mae cyfraddau tlodi ar eu huchaf ymhlith y rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar), yn ogystal â her cyflogau isel a chyfleoedd cyfyngedig i symud ymlaen[18].

### Safleoedd strategol pwysig yn genedlaethol… ond heriau sylweddol wrth eu dwyn ymlaen

**2.29** Mae'r rhanbarth yn elwa o safleoedd strategol pwysig iawn, ac mae rhai ohonynt o arwyddocâd ledled y DU o ran eu maint a'u lleoliad, ac sy'n ganolog i wireddu'r cyfle a gyflwynir gan y Porthladd Rhydd Celtaidd. Bu cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn datblygu cyfleoedd cyflogaeth a phreswyl newydd ar safleoedd tir llwyd mawr, sy'n gysylltiedig â seilwaith newydd, fel yng Nghoed Darcy a Glannau Harbwr Port Talbot, ac mae lleoliadau cyflogaeth strategol megis Cross Hands hefyd wedi dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae graddfa'r gwaith adfer a gwaith arall sydd ei angen mewn safleoedd mawr megis Parc Ynni Baglan yn golygu nad yw datblygiad yn hyfyw heb fuddsoddiad cynaliadwy, hirdymor a sylweddol.

**2.30** Ar draws y rhanbarth, mae cyflenwad pŵer hefyd yn rhwystr cynyddol sylweddol i gyflawni. Mae'r galw am drydan yn cynyddu, yn gysylltiedig â datgarboneiddio a'r galw cynyddol am

---

[17] Sefydliad Joseph Rowntree (2025), Tlodi yng Nghymru 2025
[18] Ibid.

ddata. Ond oni bai bod digon o gapasiti grid bydd safleoedd mawr yn dod i stop, ac mae angen dybryd am fuddsoddiad yn y rhwydwaith pŵer yn genedlaethol.

### Goblygiadau ar gyfer yr Adolygid Canol Tymor

**2.31** Mae'r data economaidd ffurfiol yn amlygu heriau sylweddol, yng nghyd-destun adferiad o'r pandemig, siociau allanol sydd wedi effeithio'n anghymesur ar sectorau allweddol y rhanbarth, ac economi'r DU sydd wedi dangos twf araf.

**2.32** Fodd bynnag, mae data cyd-destunol yn cyflwyno golwg yn ôl, yn hytrach nag ymlaen, ac mae economïau'n araf i newid mewn ymateb i ymyriadau polisi rhanbarthol, o ystyried cryfder ffactorau ledled yr economi. Mae 'cyflwr y rhanbarth' yn rhoi cipolwg ar berfformiad cyfredol – ond mae'r sylfaen asedau sylfaenol a chynnydd mewn cyflawni ymarferol hefyd yn bwysig ac fe'u hystyrir yn y penodau canlynol.

## Cyflymu newidiadau trawsnewidiol

Amlygodd y CCERh dair **tuedd drawsnewidiol** a fydd yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd economaidd, yn ymwneud â **digideiddio**, **datgarboneiddio** a **newid demograffig**.

Er bod y rhain yn parhau i fod yn berthnasol, mae cyflymder newid yn cyflymu, gan newid y ffordd rydym yn meddwl am gyfleoedd a heriau yn y dyfodol.

### Mewn perthynas â digideiddio…

Mae trawsnewid digidol wedi bod yn ysgogwr allweddol strategaeth economaidd ers peth amser. Amlygodd y CCERh effeithiau trawsnewidiol mewn perthynas ag **effeithiau aflonyddgar ar ddiwydiant** wrth i gydgyfeirio technolegau ysgogi creu diwydiannau newydd (dyfeisiau gwisgadwy a gemau, er enghraifft); **effeithiau ar y farchnad lafur**, wrth i awtomeiddio newid y ffordd y gwneir gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen; ac **effeithiau ar wasanaethau**, wrth i lwybrau digidol newydd agor i gael mynediad at iechyd, gofal a gwasanaethau eraill.

Yn fwy diweddar, mae mabwysiadu **deallusrwydd artiffisial** yn eang eisoes yn cael effeithiau mawr. Ers lansio ChatGPT yn 2023 mae nifer y cwmnïau sy'n defnyddio AI wedi tyfu'n gyflym, ac amcangyfrifir bod mwyafrif o gwmnïau'n defnyddio AI mewn rhan o'u busnes[19]. Mae llawer o gymwysiadau wedi'u hanelu at gynyddu effeithlonrwydd: gwella cynhyrchiant trwy awtomeiddio tasgau presennol (a thasgau sy'n gynyddol soffistigedig), gyda goblygiadau sylweddol posibl i'r gweithlu. Ond mae gan AI rôl hefyd mewn lleihau'r costau a'r amser sy'n gysylltiedig â datblygu cynnyrch, gan fod opsiynau'n haws i'w nodi, eu treialu a'u gwerthuso[20].

### Mewn perthynas â datgarboneiddio…

Mae De Orllewin Cymru eisoes wedi cael ei heffeithio'n fwy gweladwy gan ddatgarboneiddio na'r rhan fwyaf o leoedd: yn hanesyddol yn ganolfan bwysig ar gyfer diwydiannau sy'n ynni-ddwys (yn enwedig dur), bydd newid gwaith Tata ym Mhort Talbot i gynhyrchu ffwrnais arc drydan yn arwain at leihad mewn allyriadau carbon ar yr un pryd â chrebachiad sydyn mewn cyflogaeth, ac mae buddsoddiad i liniaru'r effeithiau ar y gweill. Yn fwy cyffredinol, bydd angen i drawsnewid sylfaen ddiwydiannol y rhanbarth redeg ochr yn ochr â chamau i ddatgarboneiddio systemau tai a thrafnidiaeth, a buddsoddiad mewn cynhyrchu trydan a chapasiti grid.

### Mewn perthynas â newid demograffig…

Dros yr 20 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd poblogaeth 'oedran gweithio' y rhanbarth yn gostwng. Mae bywydau gwaith eisoes yn mynd yn hirach ac yn fwy amrywiol, ond dros amser, mae'n debygol y bydd y farchnad lafur yn tynhau, gan atgyfnerthu'r angen i gynyddu cynhyrchiant ac i ddefnyddio technoleg yn effeithiol.

---

[19] Financial Times, 16 Mawrth 2025
[20] McKinsey (2025), The next innovation revolution

# 3. Asedau a galluoedd allweddol

**Roedd y tair cenhadaeth a nodir yn y CCERh wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad o gryfderau economaidd nodedig y rhanbarth. Mae'r bennod hon yn adolygu'r rhain: yn gyntaf, mae'n defnyddio Strategaeth Ddiwydiannol newydd y DU fel fframwaith i ystyried galluoedd sectoraidd allweddol, cyn nodi'r ystod ehangach o asedau rhanbarthol a fydd yn sail i dwf yn y dyfodol.**

## Galluoedd rhanbarthol allweddol drwy lens Strategaeth Ddiwydiannol

### Y Strategaeth Ddiwydiannol fel fframwaith ar gyfer dadansoddi

3.1 Ym mis Mehefin 2025 cyhoeddodd Llywodraeth y DU y **Strategaeth Ddiwydiannol Fodern[21].** Yn y cyd-destun economaidd byd-eang heriol a chyflymiad newid technoleg (yn enwedig datblygiad deallusrwydd artiffisial) mae'r Strategaeth yn nodi cynllun deng mlynedd i "wneud Prydain y wlad orau i fuddsoddi ynddi unrhyw le yn y byd", gyda'r nod o ysgogi cynhyrchiant a thwf busnes a chefnogi cyflogau uwch.

3.2 Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol yn ganolog wrth bennu buddsoddiad Llywodraeth y DU a pholisi ehangach dros y blynyddoedd nesaf. Mae sawl ymrwymiad penodol yn y Strategaeth sy'n arbennig o berthnasol i Dde Orllewin Cymru, gan gynnwys atgyfnerthu'r Porthladd Rhydd Celtaidd fel 'Parth Strategaeth Diwydiannol', a dynodiad Cronfa Safleoedd Strategol newydd, ac mae sawl cyfeiriad uniongyrchol at gyfleoedd yn Ne Orllewin Cymru[22]. Yn fwy cyffredinol, mae tair agwedd ar y Strategaeth yn arbennig o berthnasol:

- Yn gyntaf, mae gan y Strategaeth **ffocws penodol ar wyth sector** (y cyfeirir atynt fel IS-8), grŵp o ddiwydiannau sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran anghymesur o dwf cynhyrchiant. Y rhain yw: gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau ynni glân, diwydiannau creadigol, amddiffyn, technolegau digidol, gwasanaethau ariannol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau proffesiynol a busnes. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cyfrif am tua 66,000 o swyddi yn Ne Orllewin Cymru, neu tua 21% o'r holl gyflogaeth[23]. O fewn pob un o'r IS-8, mae'r Strategaeth yn diffinio cyfres o **ddiwydiannau blaengar**: is-sectorau allweddol sydd â photensial twf uchel, aliniad strategol (er enghraifft â sero net, cydnerthedd a

[21] Llywodraeth y DU (2025), Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU
[22] Mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd Celtaidd, y trawsnewidiad Tata ac ymchwil, datblygu ac arloesi lled-ddargludyddion ym Mhrifysgol Abertawe
[23] Yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyflogaeth mewn dosbarthiadau diwydiannol a ddiffinnir fel rhai sy'n brasamcanu'r IS-8. Fodd bynnag, mae'r IS-8 yn sectorau ansafonol: mae set ddata amgen wedi'i datblygu i ddarparu brasamcanion ar lefel y DU er bod angen rhagor o waith i ddarparu amcangyfrifon cadarn ar lefel leol.

nodau polisi rhanbarthol) a lle mae rhesymeg glir dros ymyrraeth y llywodraeth[24]. Yn ôl y diffiniad, mae'r IS-8 yn eithrio llawer o'r economi (o leiaf yn uniongyrchol), gan gynnwys rhai gweithgareddau sy'n bwysig iawn i Dde Orllewin Cymru – ac rydym yn ystyried y rhain yn ddiweddarach. Ond maent yn darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu ar lefel genedlaethol.

- Yn ail, mae gan y Strategaeth **ffocws penodol ar le**. Mae hyn yn blaenoriaethu 'twf rhanbarthol' (h.y. twf y tu allan i Lundain yn gyffredinol) ac yn cydnabod bod diwydiannau'r IS-8 wedi'u crynhoi'n amrywiol mewn gwahanol leoedd. Mae'r ffordd y diffinnir lleoedd yn dibynnu ar ddaearyddiaeth clwstwr: er enghraifft, mae 'Cymru', 'De Cymru' ac 'Abertawe' yn cael eu cydnabod yn amrywiol fel ardaloedd allweddol i ganolbwyntio arnynt mewn perthynas â diwydiannau unigol, gyda'r awgrym y bydd rhai clystyrau diwydiannol yn mynd y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol sefydledig.

- Yn drydydd, mae **ffocws penodol ar dargedu lleoedd a chlystyrau sydd â photensial i dyfu**: lle mae asedau a chrynodiadau o weithgarwch presennol, ond lle nad yw perfformiad yn 'flaengar' eto. Nid y nod o reidrwydd yw cefnogi gweithgaredd newydd *ym mhobman*, ond canolbwyntio adnoddau ar y lleoedd hynny sydd â'r cyfle mwyaf i adeiladu i fyny (h.y. cynyddu graddfa) ac adeiladu allan (h.y. meithrin cysylltiadau ehangach â chlystyrau eraill).

### Nodi galluoedd y rhanbarth mewn perthynas â sectorau'r Strategaeth Ddiwydiannol

**3.3** Dangosodd Pennod 2 fod 'capasiti sbâr' yn Ne Orllewin Cymru, o ran y farchnad lafur a lle ffisegol ar gyfer datblygiad economaidd. Ar yr un pryd, mae asedau sylweddol i adeiladu arnynt. Gan adeiladu ar hyn, mae'r tablau isod yn crynhoi galluoedd y rhanbarth mewn perthynas ag IS-8, gan amlygu cryfderau allweddol ym meysydd **ynni glân**, **gweithgynhyrchu uwch**, **technolegau digidol**, **diwydiannau creadigol** a **gwyddorau bywyd:**

| **Diwydiannau ynni glân** | |
|---|---|
| Galluoedd diwydiannol allweddol | Galluoedd helaeth sy'n gysylltiedig â, a'r tu allan i'r Porthladd Rhydd, gan gynnwys:<br><br>**Gwynt alltraeth arnofiol (FLOW)**: potensial cynhyrchu ynni o bwys cenedlaethol yn y Môr Celtaidd. Cynigion presennol ar gyfer capasiti o 4.5GW (y mae Ystad y Goron yn amcangyfrif allai gefnogi tua 5,300 o swyddi yn seilwaith y porthladd, cydosod a gweithrediadau a chynnal a chadw), gyda photensial ar gyfer 24GW yn y tymor hwy<br><br>**Hydrogen**: cyfres o brosiectau cynnar yn Sir Benfro a Phort Talbot, gyda sgôp i allforio hydrogen gwyrdd (wedi'i gynhyrchu gan FLOW) |

[24] Am fwy o fanylion ynghylch sut mae'r rhain wedi'u diffinio, gweler Atodiad Technegol y Strategaeth Ddiwydiannol

| Diwydiannau ynni glân | |
|---|---|
| | **Tanwyddau cynaliadwy**, gan gynnwys tanwyddau awyrennau cynaliadwy (yn cynnwys y potensial ar gyfer cyfleuster cynhyrchu tanwydd awyrennau cynaliadwy yn Aberdaugleddau)<br>**Dal a storio carbon**, gan gynnwys gwaith dal carbon posibl i ddatgarboneiddio gorsaf bŵer Penfro<br>**Ynni morol a llanw**, gan gynnwys Hyb Ynni Morol yn Aberdaugleddau a Hyb Trafnidiaeth Abertawe a datblygiad Porthladd<br>**Cyfleoedd ynni ar y tir** ym meysydd gwynt, solar, biomas a gwastraff-i-ynni, gan gynnwys parc economi gylchol Nant-y-caws |
| Capasiti Ymchwil a Datblygu ac Arloesi | Mae sefydliadau allweddol yn cynnwys y **Catapwlt Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (ORE)** yn Aberdaugleddau, **Canolfan Hydrogen** Prifysgol De Cymru ym Maglan, a **Chanolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC** Prifysgol Abertawe (dal a storio ynni solar) |
| Rhwystrau allweddol | Datblygu capasiti'r gadwyn gyflenwi (a datblygiad sgiliau cysylltiedig). Cystadleuaeth o fannau eraill, yn enwedig lleoliadau â chysylltiadau cadwyn gyflenwi mwy sefydledig. Mae rhai is-sectorau yn parhau i fod yn newydd (e.e. hydrogen). Angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith porthladd |

| Gweithgynhyrchu uwch | |
|---|---|
| Galluoedd diwydiannol allweddol | Mae'r galluoedd allweddol a nodwyd yn cynnwys:<br>**Gweithgynhyrchu gwyrdd**, gan gynnwys datgarboneiddio'r sector dur a datblygu deunyddiau/technolegau i gefnogi'r sector ynni adnewyddadwy alltraeth<br>**Technolegau amaethyddol**, wedi'u cysylltu â sector amaethyddol a chynhyrchu bwyd mawr y rhanbarth (a chysylltiadau y tu hwnt i'r rhanbarth â'r crynodiad technoleg amaethbv yddol mawr yn Aberystwyth)<br>**Technoleg batri** – nid oes presenoldeb ar hyn o bryd yn y rhanbarth, ond mae potensial ar gyfer datblygiad cysylltiedig â chyflenwad ynni glân<br>**Technolegau trafnidiaeth**, gan gynnwys y Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE) yn Onllwyn a sector cadwyn gyflenwi modurol sy'n bodoli'n barod |
| Capasiti Ymchwil a Datblygu ac Arloesi | Asedau sylweddol ym **Mhrifysgol Abertawe**, gan gynnwys sefydliad ymchwil deunyddiau a gweithgynhyrchu **M2RI** a'r cyfleuster **SWITCH** sydd ar ddod; y **Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** ym Maglan; a Chanolfan Dechnoleg Cymru **TWI** |
| Rhwystrau allweddol | Pwysau sylweddol ar weithgynhyrchwyr sy'n defnyddio llawer o ynni. Diffyg gweithgynhyrchwyr 'angori' mawr: mae'r sector yn seiliedig ar |

| Gweithgynhyrchu uwch | |
|---|---|
| | fusnesau bach a chanolig i raddau helaeth. Mynediad at safleoedd a sgiliau gweithlu i gefnogi ehangiad. |

| Digidol a thechnolegau | |
|---|---|
| Galluoedd diwydiannol allweddol | Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn amlygu seiberddiogelwch, technolegau cwantwm a lled-ddargludyddion fel is-sectorau blaengar perthnasol; mae'r rhain i gyd yn gymharol fach yn Ne Orllewin Cymru. Fodd bynnag… |
| Capasiti Ymchwil a Datblygu ac Arloesi | Mae asedau'r Brifysgol yn bwysig iawn. Mae'r rhain yn cynnwys **Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludyddion Integreiddiol** Prifysgol Abertawe, sy'n chwarae rhan bwysig yng nghlwstwr lled-ddargludyddion De Cymru sy'n canolbwyntio'n bennaf ar Gaerdydd a Chasnewydd. Mae gan Abertawe hefyd bresenoldeb sylweddol mewn cyfrifiadureg, gan gynnwys y **Ffowndri Gyfrifiadurol** a **Labordy Diogelwch Abertawe** a chanolfan ymchwil seiberddiogelwch **CyTREC**. |
| Rhwystrau allweddol | Cyfyngedig mewn stoc cwmnïau lleol, er gwaethaf galluoedd academaidd cryf. |

| Diwydiannau creadigol | |
|---|---|
| Galluoedd diwydiannol allweddol | Presenoldeb ffilm a theledu sy'n tyfu, er enghraifft yn gysylltiedig â'r Egin S4C a'r crynodiad o gwmnïau cynhyrchu sy'n cael eu denu yno. Mae ffocws arbennig ar gynnwys Cymreig a Chymraeg, y mae cynnig De Orllewin Cymru yn ategu'r hyn sydd yng Nghaerdydd (trydydd clwstwr ffilm a theledu mwyaf y DU) ac mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae yna hefyd sector creadigol digidol sy'n tyfu, yn enwedig yn Abertawe. |
| Capasiti Ymchwil a Datblygu ac Arloesi | Mae'r Egin wedi'i chyd-leoli â Phrifysgol y Drindod Dewi Sant, sydd hefyd yn gweithredu cyfres o ganolfannau ymchwil o fewn y Sefydliad Gwyddoniaeth a Chelfyddydau. |
| Rhwystrau allweddol | Adeiladu màs critigol a denu a chadw gweithlu. |

| Gwyddorau bywyd | |
|---|---|
| Galluoedd diwydiannol allweddol | Presenoldeb busnesau bach, er bod rhaglen sylweddol o ymchwil gymhwysol yn gysylltiedig â'r GIG (e.e. ARCH, cydweithrediad rhwng Prifysgol Abertawe a Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda) a Sefydliad TriTech BIP Hywel Dda. Mae datblygiad newydd |

| Gwyddorau bywyd | |
|---|---|
| | Pentre Awel yn Llanelli hefyd yn ceisio denu cwmnïau gwyddor bywyd ochr yn ochr â'i gynnig gofal iechyd a lles. Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn cynnal y BioHUB Cynhyrchion Naturiol, un o bum Canolfan Economi Werdd y DU a ariennir gan UKRI, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio cynhyrchion naturiol yn y diwydiannau amaethyddol, fferyllol a gweithgynhyrchu. |
| Capasiti Ymchwil a Datblygu ac Arloesi | Mae **Sefydliad Gwyddor Bywyd** Prifysgol Abertawe yn lletya nifer o gwmnïau deillio ochr yn ochr â gweithgaredd ymchwil y brifysgol. Ym maes data iechyd, mae Prifysgol Abertawe hefyd yn lletya un o chwe safle Ymchwil Data Iechyd y DU (HDR-UK), gyda chefnogaeth banc data iechyd y boblogaeth SAIL a letyir yn Abertawe ac a ddatblygwyd mewn partneriaeth â GIG Cymru ac UKRI. |
| Rhwystrau allweddol | Presenoldeb masnachol bach eisoes yn bodoli, er gwaethaf cryfderau academaidd sylweddol, a chwmpas i alinio â chrynodiadau mwy yn Ne Ddwyrain Cymru. |

3.4 Mae gan y tri sector arall yn y Strategaeth Ddiwydiannol - **amddiffyn**, **gwasanaethau ariannol** a **gwasanaethau proffesiynol a busnes** - lai o asedau nodedig yn Ne Orllewin Cymru, gyda'r ddau olaf yn darparu'n bennaf ar gyfer galw a gynhyrchir yn lleol. Fodd bynnag, mae rhai galluoedd lleol penodol, megis Labordy Arloesi Cyfreithiol Prifysgol Abertawe - ac mae cysylltiadau o'r diwydiant amddiffyn i sectorau gweithgynhyrchu a digidol ehangach y rhanbarth.

3.5 **Wrth edrych ar draws clystyrau'r Strategaeth Ddiwydiannol, mae cryfderau rhanbarthol sylweddol mewn rhai meysydd.** Mae'r rhain o arwyddocâd cenedlaethol blaenllaw mewn perthynas ag ynni glân, gyda rhai'n asedau o bwys cenedlaethol sydd â lle i dyfu mewn perthynas â gweithgynhyrchu uwch, technolegau digidol, diwydiannau creadigol a gwyddorau bywyd. Mewn sawl un o'r rhain, mae cysylltiadau 'allanol' yn bwysig – er enghraifft, gydag Aberystwyth yn achos technoleg amaethyddol, â Chaerdydd ym maes ffilm a theledu, ac ar draws De Ddwyrain Cymru o ran gweithgynhyrchu uwch a datgarboneiddio diwydiannol.

## Tu Hwnt i'r Strategaeth Ddiwydiannol

3.6 Disgrifiodd y CCERh bedwar '**cryfder a chyfle economaidd nodedig**', a roddodd blatfform ar gyfer datblygu Uchelgeisiau a Chenadaethau'r strategaeth. Mae'r rhain yn cyd-fynd â galluoedd y Strategaeth Ddiwydiannol a nodir uchod:

### Seilwaith ynni a photensial carbon isel

3.7 Gan ddisgrifio'r cryfder cyntaf a nodwyd, nododd y CCERh fod "*ein seilwaith ynni yn helaeth, a bod gennym beth o botensial ynni carbon isel mwyaf y DU*". Nodir y cyfleoedd allweddol mewn

perthynas â 'diwydiannau ynni glân' uchod, ac ers cynhyrchu'r CCERh mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i fynegi maint y cyfleoedd ac i'w dwyn ymlaen: trafodir hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

### Asedau ymchwil prifysgol o bwys cenedlaethol a rhyngwladol

**3.8** Mae presenoldeb addysg uwch cryf yn y rhanbarth: gyda'i gilydd roedd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cyfrif am bron i 37,000 o fyfyrwyr (ar lefel israddedig ac ôl-raddedig) yn 2023/24. Tynnodd y CCERh sylw at gryfderau mewn gwyddor data uwch, iechyd a meddygaeth a pheirianneg a gweithgynhyrchu. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol iawn i gyfleoedd diwydiannol ehangach y rhanbarth, ac – fel y nodwyd uchod – mae galluoedd academaidd mewn rhai meysydd ar y blaen i ddatblygiadau masnachol. Y tu hwnt i gryfderau ymchwil, mae'r prifysgolion hefyd wedi bod yn bwysig mewn datblygu mannau arloesi busnes (megis cyfleuster Matrics Arloesi'r Brifysgol yn Abertawe) ac mewn cyflwyno rhaglenni cydweithredol gyda busnesau.

**3.9** Mae prifysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd yn wynebu heriau sylweddol, sy'n gysylltiedig â niferoedd a chyfraddau cyfranogiad myfyrwyr rhyngwladol sy'n gostwng a chostau cynyddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi'r cyfraniad y mae'r prifysgolion yn ei wneud i ddatblygiad economaidd rhanbarthol. **Gan edrych ymlaen at weddill y degawd, bydd cynnal a thyfu presenoldeb a dylanwad y prifysgolion ar yr economi ehangach yn allweddol i wireddu potensial y CCERh.**

### Y gymuned fusnes ehangach

**3.10** Er bod gan y Strategaeth Ddiwydiannol ffocws clir ar y sectorau hynny sydd fwyaf tebygol o ysgogi twf cynhyrchiant cynaliadwy, nododd y CCERh yr angen i gryfhau 'lled a dyfnder' sylfaen fusnes y rhanbarth, gan gydnabod bod cyfleoedd ar gyfer twf ar draws yr economi, nid yn unig yn y gweithgareddau hynny sydd ar 'flaen y gad'.

**3.11** Gan ddefnyddio diffiniadau sector (dangosol) Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth, mae'r IS-8 yn cyfrif am tua 56,000 o swyddi yn y rhanbarth – tua 18% o'r holl swyddi. Hyd yn oed pe bai'r sectorau hyn yn gweld twf sylweddol, bydd y rhan fwyaf o bobl yn dal i weithio mewn rhannau eraill o'r economi, gan gynnwys mewn sectorau (megis yr economi ymwelwyr) sy'n arwyddocaol iawn mewn rhannau o Dde Orllewin Cymru. Mae cwmnïau sydd ag arwyddion o dwf uchel a chapasiti arloesol wedi'u dosbarthu'n eithaf eang yn ôl sector[25], ac mae lle i gynyddu cynhyrchiant ym mhob sector (yn enwedig lle mae cwmnïau'n gallu elwa gan gyngor allanol)[26]. Rydym hefyd yn nodi heriau'r rhanbarth mewn perthynas â dwysedd cymharol isel o fentrau.

---

[25] Dadansoddiad o ddata Beauhurst ar gyfer De Orllewin Cymru
[26] Canolfan Ymchwil Menter (2024), The State of Small Business Britain 2024: Rising to the Challenge

3.12 Yn y cyd-destun hwnnw, mae strategaeth sy'n ceisio cefnogi twf busnes ehangach ochr yn ochr â datblygu galluoedd yn yr IS-8 yn parhau i fod yn ddilys.

### Ansawdd amgylcheddol ac ymdeimlad o le

3.13 Yn olaf, diffiniodd y CCERh hunaniaeth nodedig y rhanbarth fel ased allweddol. Roedd hyn yn ymwneud â rôl 'ansawdd bywyd' wrth ddenu ymwelwyr a buddsoddwyr, a phwysigrwydd cydberthynas busnesau a sefydliadau eraill â'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Mae hyn yn parhau i fod yn berthnasol iawn i gynnig De Orllewin Cymru.

## Goblygiadau ar gyfer yr Adolygiad Canol Tymor

3.14 Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol yn darparu lens ychwanegol i ystyried galluoedd allweddol y rhanbarth. Mae aliniad cryf rhwng y Strategaeth Ddiwydiannol a chryfderau'r rhanbarth, yn enwedig mewn perthynas ag ynni glân, lle mae rhai o asedau'r rhanbarth o arwyddocâd cenedlaethol: yn amlwg, mae gan Dde Orllewin Cymru'r sgôp i wneud cyfraniad sylweddol at amcanion y Strategaeth Ddiwydiannol, ac mae cydnabyddiaeth uniongyrchol yn y Strategaeth o rai o gryfderau'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae dull ehangach o ymdrin ag economi'r rhanbarth hefyd yn parhau i fod yn ddilys - gan sbarduno twf busnes a chynyddu cynhyrchiant yn gyffredinol yng nghyd-destun economi sy'n seiliedig ar fusnesau bach a chanolig yn bennaf. Ystyrir hyn wrth adolygu fframwaith strategol y CCERh, yr ydym yn ei ystyried yn y bennod nesaf.

## Newidiadau yn y cyd-destun polisi ehangach

Er bod y Strategaeth Ddiwydiannol yn berthnasol iawn i Dde Orllewin Cymru, nid dyma'r unig ddatblygiad yn y cyd-destun polisi ehangach.

### Y DU

Ar lefel y **DU**, mae'r Strategaeth Ddiwydiannol ei hun yn ddilyniannol i *Gynllun Newid* y Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn 2024[27], sy'n nodi ei 'genadaethau' ar gyfer y Senedd. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfres o gerrig milltir, gan gynnwys targed i godi safonau byw ym mhob rhan o'r DU, ac ymrwymiad i gynyddu cynhyrchiant ynni domestig.

Ers haf 2024, mae sawl strategaeth arall wedi'u mabwysiadu. Mae'r rhain yn cynnwys *Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030*, sy'n atgyfnerthu'r ymrwymiad i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy[28], a'r *Cynllun Gweithredu Cyfleoedd AI*, sy'n cefnogi mabwysiadu deallusrwydd artiffisial ar draws yr economi a buddsoddi mewn seilwaith 'sylfaenol', megis pŵer cyfrifiadurol, canolfannau data a sgiliau[29]. Mae'r *Papur Gwyn Cael Prydain i Weithio* yn nodi amcan o leihau bod heb waith ac anweithgarwch economaidd, yn enwedig yng nghyd-destun cynnydd mewn anweithgarwch a achosir gan afiechyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf[30]. Yn olaf, nododd Adolygiad Gwariant 2025 ymrwymiad y Llywodraeth i greu 'Cronfa Twf Lleol' newydd i ddisodli Cronfa Ffyniant a Rennir y DU, er bod manylion sut y bydd hyn yn cael ei reoli yng Nghymru eto i'w penderfynu.

### Cymru

Mabwysiadodd **Llywodraeth Cymru** *Genhadaeth Economaidd* newydd yn 2023, gyda'r uchelgais am "economi Gymreig gryfach, decach a gwyrddach"[31]. Mae hon yn nodi pedair blaenoriaeth genedlaethol, sy'n ymwneud â 'thrawsnewidiad cyfiawn' a ffyniant gwyrdd yng nghyd-destun newid hinsawdd; yr 'economi pob dydd'; galluogi pobl ifanc i gael mynediad at waith teg a sgiliau; a buddsoddi ar gyfer twf, gan gynnwys drwy *Cymru'n Arloesi*, y strategaeth arloesi genedlaethol. Mae *Cymru'r Dyfodol*, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, hefyd yn berthnasol, yn enwedig yn ei ddynodiad o Ardal Twf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli ac Ardal Twf Rhanbarthol Caerfyrddin a'r Ddau Gleddau, ac yn ei hymrwymiad i ddull 'canol trefi yn gyntaf' o ddatblygu[32].

### Yn Rhanbarthol

Yn **Ne Orllewin Cymru** mabwysiadwyd y *Strategaeth Ynni Ranbarthol* yn 2021, ac ymgynghorwyd ar *Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol* drafft. Byddwn yn sôn rhagor am y rhain a'u perthynas â'r CJC ym Mhenodau 6 a 7.

[27] Llywodraeth y DU (2024), Cynllun ar gyfer Newid
[28] Llywodraeth y DU (2024), Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030
[29] Llywodraeth y DU (2025), Cynllun Gweithredu Cyfleoedd AI
[30] Llywodraeth y DU (2024), Papur Gwyn Cael Prydain i Weithio
[31] Llywodraeth Cymru (2023), Cenhadaeth Economaidd: Blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach
[32] Llywodraeth Cymru (2024), Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

# 4. Adolygu ein Huchelgeisiau a'n Cenadaethau


**Er bod y cyd-destun economaidd a pholisi wedi esblygu, mae'r Uchelgeisiau a'r Cenadaethau hirdymor a nodir yn y CCERh yn parhau i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau'r rhanbarth. Mae'r bennod hon yn adolygu fframwaith strategol y CCERh ac yn nodi rhai 'hanfodion sylfaenol' ychwanegol a fydd yn bwysig i'r rhanbarth dros weddill y degawd.**

## Fframwaith strategol wedi'i diweddaru

4.1 Mynegodd y fframwaith strategol a nodir yn y CCERh dair **Uchelgais** (datganiadau am natur economi De Orllewin Cymru yr ydym am weithio tuag atynt), gan gefnogi tair **Cenhadaeth** (meysydd blaenoriaeth mwy penodol y dylid canolbwyntio gweithredu arnynt).

4.2 4.2 Mae'r Uchelgeisiau a'r Cenadaethau yn parhau'n berthnasol, ac mae cyfeiriad strategol y CCERh yn parhau i fod yn iawn yn y dirwedd economaidd a pholisi sy'n esblygu. Ond rydym hefyd wedi nodi'r angen am ffocws newydd ar rai themâu pwysig sy'n rhedeg ar draws, ac sy'n berthnasol i, y tair Cenhadaeth. Dangosir y fframwaith strategol diwygiedig isod, ac edrychir yn fanylach arnynt yn yr adrannau canlynol:

**Ffigur 4-1: Y fframwaith strategol wedi'r diweddaru**




*Ffynhonnell: SQW*

### Y tair Uchelgais

4.3 Mae'r tair Uchelgais am weld rhanbarth:

- **Cydnerth a chynaliadwy**: gallu addasu i newid mewn technoleg ac effeithiau digideiddio, yn gydnerth i newid hinsawdd a datgarboneiddio, ac yn arwain at economi sydd â sylfaen fusnes a rhwydwaith cadwyn gyflenwi mwy cydnerth ac wedi'i 'gwreiddio'.

- **Mentrus ac uchelgeisiol**: mewn perthynas â chyfle ynni hirdymor y rhanbarth, gallu manteisio ar amodau marchnad sy'n newid a chyfleoedd newydd, ac yn agored i arloesedd a buddsoddiad newydd.

- **Cytbwys a chynhwysol**: gyda dull ar gyfer twf economaidd sydd wedi'i gydbwyso'n ofodol ar draws y rhanbarth ac yn cydnabod unigrywiaeth leol, yn cydnabod cydbwysedd rhwng arloesedd ar y 'rheng flaen' a thwf cynaliadwy ar draws yr economi, ac yn gwella asedau amgylcheddol a chymunedol.

**4.4** Nid yw'r tair Uchelgais yn unigryw i Dde Orllewin Cymru: maent yn nodau cyffredinol, yn hytrach na galwadau penodol i weithredu. Ond maent yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r math o economi yr ydym am ei chyflawni. Yn benodol, mae'r ffocws ar 'gydnerthedd' yn arbennig o bwysig yng ngoleuni'r newidiadau cyflym mewn technoleg a strwythur diwydiannol a amlinellwyd yn y penodau cynharach - er, fel yr ydym wedi'i nodi, mae cryn bellter i fynd cyn cyflawni'n llawn yr economi a ragwelir gan yr Uchelgeisiau. **Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yr holl gamau a gymerir gan y CJC a'r awdurdodau lleol i gefnogi adfywio a thwf economaidd yn parhau i ganolbwyntio ar eu cyflawni.**

### Y tair Cenhadaeth

**4.5** Mae'r tair Cenhadaeth wrth wraidd y fframwaith strategol. Daethant i'r amlwg o'r dystiolaeth a baratowyd i gefnogi'r CCERh ac maent yn canolbwyntio ar y meysydd gweithredu penodol sy'n ymateb i gyfleoedd a heriau hirdymor y rhanbarth, sef:

- Sefydlu De Orllewin Cymru fel arweinydd y DU ym maes ynni adnewyddadwy a datblygiad economi sero net

- Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i 'gwreiddio'

- Tyfu a chynnal y cynnig 'profiad'

**4.6** **Mae'r tair Cenhadaeth yn parhau i fod yn ganolog i'r CCERh.** Fe'u hatgyfnerthir gan esblygiad y dirwedd economaidd a pholisi dros y blynyddoedd diwethaf, fe'u defnyddiwyd yn helaeth gan bartneriaid wrth 'wneud yr achos' dros fuddsoddi, ac maent yn nodedig i anghenion a photensial y rhanbarth.

### Tri hanfod sylfaenol

**4.7** Fodd bynnag, mae rhai materion pwysig yn wynebu'r economi ranbarthol sy'n gyffredin i'r holl Genadaethau (a byddant yn cyfrannu at yr Uchelgeisiau cyffredinol), ond na chawsant eu mynegi'n ddigonol yn y CCERh gwreiddiol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- **Cyflogaeth a sgiliau**. Yn y tymor byr, mae hyn yn ymwneud â'r her ôl-bandemig o anweithgarwch economaidd cynyddol a'r dystiolaeth o anghydbwysedd rhwng capasiti ymddangosiadol yn y farchnad lafur ochr yn ochr â thagfeydd sgiliau. Yn y tymor hwy, bydd gan y tueddiadau trawsnewidiol a nodwyd ym Mhennod 2 (yn enwedig digideiddio a dyfodiad deallusrwydd artiffisial) oblygiadau dwys ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol.

- **Cysylltedd cynaliadwy**. Cydnabu'r CCERh yr angen am fuddsoddiad mewn trafnidiaeth fel llwybr i wella hygyrchedd at gyflogaeth, ac fel elfen hollbwysig wrth gyflawni uchelgeisiau datgarboneiddio'r rhanbarth. Ond mae cyfle i fod yn fwy beiddgar, gan gydnabod y rôl y gall trafnidiaeth ei chwarae mewn ysgogi patrymau datblygu mwy cynaliadwy yn y tymor hir, ac mewn cyflwyno'r achos dros newid sylweddol mewn buddsoddiad.

- **Safleoedd ac adeiladau**. Bydd cyflawni yn erbyn yr holl Genadaethau yn golygu dod â lleoliadau cyfle ar gyfer twf ymlaen - boed yng nghanol trefi a dinasoedd, neu ar safleoedd cyflogaeth strategol allweddol. Ond mae hyfywedd yn parhau i fod yn her fawr ar draws y rhanbarth ac mae angen ffocws newydd i fynd i'r afael ag ef.

### Llwybrau i gyflawni

**4.8** Yr elfen olaf yn y fframwaith yw **cyflawni**. Mae hyn yn cynnwys cynnal y biblinell gyfredol o brosiectau i fodloni'r strategaeth a amlinellir yn y CCERh (ac mae'r biblinell prosiectau bresennol yn cael ei diweddaru ochr yn ochr â'r Adolygiad hwn). Ond mae hefyd yn golygu bod yn arloesol ac yn uchelgeisiol mewn perthynas â dulliau newydd o ariannu, a denu buddsoddiad preifat.

# 5. Y tair Cenhadaeth: Cynnydd a chyflawni yn y dyfodol

**Mae'r tair Cenhadaeth yn ganolog i'r fframwaith strategol wedi'i diweddaru. Mae'r bennod hon yn adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un ohonynt ers mabwysiadu'r CCERh, ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu pellach dros y pum mlynedd nesaf.**

## Cenhadaeth 1: Arweinydd yn y DU mewn ynni adnewyddadwy a'r economi sero nesaf

**Cenhadaeth y CCERh:**

"Gan edrych ymlaen at 2030, ein nod yw gwneud De Orllewin Cymru yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy yn y DU. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n galluoedd diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o arwyddocâd rhyngwladol mewn technolegau tanwydd yn y dyfodol ac i ysgogi datgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi ehangach".

5.1 Nododd y CCERh faint y cyfle sydd ar gael yn Ne Orllewin Cymru, a amlinellwyd mewn penodau blaenorol. Ond tynnodd sylw hefyd at risgiau allweddol i'r rhanbarth, sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth o leoedd eraill a cham cymharol gynnar rhai technolegau newydd. Nododd yr angen am ddull strategol, cydlynol sy'n gysylltiedig â'r Genhadaeth hirdymor.

### Cyflawni prosiectau ynni carbon isel y rhanbarth ar raddfa fawr

5.2 Gwnaed cynnydd sylweddol mewn dwyn ymlaen gyfleoedd ynni adnewyddadwy mawr De Orllewin Cymru, sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd Celtaidd a buddsoddiadau cyfredol a phosibl mawr eraill.

#### Porthladd Rhydd Celtaidd

5.3 Y **Porthladd Rhydd Celtaidd** yw'r canolbwynt ar gyfer symbylu llawer o botensial y rhanbarth. Cyfeiriodd y CCERh at botensial Porthladd Rhydd, er nad oedd y broses ar gyfer pennu lleoliadau Porthladd Rhydd wedi'i phenderfynu ar y pryd. Yn dilyn proses gystadleuol, cyhoeddwyd dynodiad y Porthladd Rhydd Celtaidd gan Lywodraethau Cymru a'r DU ym mis Mawrth 2023, gan ddod â safleoedd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot ynghyd.

5.4 Mae'r rhesymeg dros Borthladd Rhydd yn Ne Orllewin Cymru yn gryf iawn: mae clystyrau diwydiannol Port Talbot ac Aberdaugleddau yn trin tua 20% o gyflenwad ynni'r DU, ac yn ymgorffori seilwaith ynni mawr. Mae Aberdaugleddau a Phort Talbot hefyd yn cynnig capasiti cei a thir i ddarparu ar gyfer gweithgaredd gweithredu a chynnal a chadw a gweithgynhyrchu a chydosod i gefnogi gwynt alltraeth arnofiol (FLOW) yn y Môr Celtaidd. Gallai graddfa hyn fod yn sylweddol iawn, gyda hyd at 24GW o gapasiti cynhyrchu yn y Môr Celtaidd yn y tymor hwy. Mae lle hefyd i'r seilwaith olew a nwy presennol gael ei addasu ar gyfer cynhyrchu ac allforio hydrogen, gan gadw a manteisio ar rôl arweiniol y rhanbarth wrth i'r system ynni ddatgarboneiddio. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ynni gwynt alltraeth, a ddatblygwyd ar y cyd â diwydiant, y porthladdoedd ac Ystad y Goron[33], tra bod Ystad y Goron ei hun wedi lansio strategaeth buddsoddi cadwyn gyflenwi[34].

5.5 Yn ffurfiol, cyfres o safleoedd sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd Aberdaugleddau a Phort Talbot yw'r Porthladd Rhydd, lle mae cymhellion treth a thollau yn berthnasol i hybu masnach a gweithgarwch diwydiannol. Y tu hwnt i hyn, mae gan y Porthladd Rhydd fynediad at gyllid cyfalaf sbarduno i gyfrannu at gostau cynnar datblygu (yn enwedig adfer tir, sy'n aml yn waharddol), a'r gallu i gadw'r ardrethi busnes a gynhyrchir o ddatblygiadau ychwanegol i fuddsoddi mewn rhaglenni sgiliau er mwyn cefnogi anghenion newidiol y gweithlu. O ganlyniad, dim ond rhan o'r pecyn cyfan yw'r gostyngiadau treth sy'n gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd, gyda chyfraddau argadwedig yn chwarae rhan yr un mor bwysig o leiaf, ac yn cefnogi buddion ehangach y tu hwnt i ffin y Porthladd Rhydd. Yn fwy cyffredinol, dylai'r Porthladd Rhydd gael effaith ehangach o ran denu buddsoddiad i'r rhanbarth, codi ei broffil a galluogi 'trawsnewidiad cyfiawn' ar gyfer y system ynni sy'n seiliedig ar garbon ar hyn o bryd.

5.6 Er gwaethaf potensial sylweddol y rhanbarth nododd y CCERh fod risg na fyddai hyn yn cael ei wireddu, oherwydd mae rhai technolegau yn eu dyddiau cynnar, gall ardaloedd sy'n cystadlu symud yn gyflymach, ac nid yw buddion lleol o reidrwydd yn deillio heb greu cyfleoedd cadwyn gyflenwi. **Mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn elfen allweddol o liniaru'r risgiau hyn**, gan helpu i sicrhau tir cyn ei ddefnyddio er mwyn galluogi gweithgynhyrchu lleol i fod yn gynnig realistig, datblygu cadwyn gyflenwi a strategaeth sgiliau, a rhoi 'chwarae teg' gyda rhanbarthau cystadleuol.

5.7 Mae'n dal i fod yn ddyddiau cymharol gynnar i'r Porthladd Rhydd: daeth y drefn cymhellion treth i rym ym mis Tachwedd 2024 (a bydd yn para am ddeng mlynedd) a chymeradwywyd achos busnes llawn Porthladd Rhydd ym mis Mehefin 2025. Fodd bynnag, mae gweithgarwch yn y sector adnewyddadwy alltraeth yn mynd rhagddo'n gyflym, er enghraifft gyda chyhoeddiad Ystad y Goron o'r datblygwyr arweiniol i gyflwyno 4.5GW o allu FLOW yn y Môr Celtaidd[35]. Yn ogystal, mae nifer o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy newydd wedi dod

---

33 Llywodraeth Cymru (2025), [Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr camau gweithredu: 2025 i 2026]
34 Ystad y Goron (2025), [Powering Offshore Wind]
35 Ystad y Goron (2025), [New frontier for UK offshore wind]

ymlaen, gan gynnwys cynhyrchu hydrogen gwyrdd yn Noc Penfro a thanwydd awyrennau cynaliadwy ym Mhort Talbot.

### Buddsoddiadau mawr eraill

5.8 Y tu hwnt i'r Porthladd Rhydd Celtaidd a chyfleoedd cysylltiedig yn y Môr Celtaidd, mae buddsoddiadau ynni adnewyddadwy pwysig eraill yn cynnwys:

- Prosiect **Morol Doc Penfro**, a ariennir gan y Fargen Ddinesig ac sy'n cynnwys Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol, Ardal Profi Ynni Morol Cymru, a seilwaith porthladd, a agorwyd yn 2024.
- **Hyb Ynni a Thrafnidiaeth Abertawe a Datblygiad Porthladd**. Cyfeirir ato yn y CCERh o dan ei hen enw 'Ynys Ynni'r Ddraig', ac mae'r prosiect hwn yn rhagweld cyfleuster pŵer solar a llanw mawr ym Mae Abertawe. Mae cytundebau bellach ar waith i alluogi'r cam cyntaf i fynd rhagddo, sy'n cynnwys fferm solar ar y tir, hyb trafnidiaeth werdd a gweithgynhyrchu batris. Bydd yr ail gam yn mynd rhagddo unwaith y bydd caniatadau datblygu yn eu lle, gyda sgôp ar gyfer morlyn llanw, canolfan ddata a defnyddiau eraill.
- **Parc Economi Gylchol Nant-y-caws** ger Caerfyrddin, sy'n darparu canolfan ranbarthol ar gyfer ailddefnyddio deunyddiau a chynhyrchu ynni, y mae cynllun meistr ar ei gyfer yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### Y pum mlynedd nesaf…

5.9 Mae llawer ar y gweill erbyn hyn, a dylai fod sgôp ar gyfer cyflawni seilwaith a buddsoddi dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys gweithgaredd cefnogi sylweddol – er enghraifft mewn mynd i'r afael â phroblemau sylweddol o ran capasiti'r grid trydan, ac mewn cynllunio ar gyfer y gweithlu y mae'n debyg fydd ei angen (o ran sgiliau ac o ran trigolion ychwanegol).

## Datgarboneiddio'r sylfaen ddiwydiannol

5.10 Tynnwyd sylw at fregusrwydd sylfaen ddiwydiannol carbon-ddwys y rhanbarth yn y CCERh. Ers hynny, mae hyn wedi'i ddangos yn glir gan y newid i gynhyrchu dur carbon is ym Mhort Talbot, sydd wedi cynnwys buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y DU a'r sector preifat, gan gadw cynhyrchu dur ar raddfa fawr yn y rhanbarth, yn ogystal â cholli swyddi sylweddol. Mae hyn wedi dod law yn llaw â Chronfa Bontio gwerth £100 miliwn i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan y newid, yn ogystal â buddsoddiadau a fydd yn creu swyddi ychwanegol (yn enwedig swyddi gwerth uchel) ac yn cefnogi datblygiad sgiliau dros y tymor hwy.

5.11 Y tu hwnt i'r newid yn Tata ei hun, mae datblygiadau eraill ers paratoi'r CCERh yn cynnwys:

- Cynnydd mewn cyflwyno seilwaith ymchwil trosi a fydd yn cefnogi'r broses ddatgarboneiddio ddiwydiannol. Mae hyn yn cynnwys SWITCH Prifysgol Abertawe

(South Wales Industrial Transition from Carbon Hub) ym Mhorthladd Port Talbot, sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r sector metelau, ac sydd bellach wedi'i ariannu'n llawn.

- Parhau i gynllunio a datblygu'r Ganolfan Fyd-eang arfaethedig ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn, a fydd yn darparu canolfan arloesi ar gyfer datblygu rheilffordd sero net
- Cyhoeddi Cynllun Clwstwr Diwydiannol De Cymru ar gyfer Twf Glân yn 2023, gyda chyfranogiad consortiwm o gwmnïau yn y rhanbarth, a gyda gorgyffwrdd sylweddol a chydlyniad â'r cyfleoedd technoleg a nodwyd gan y Porthladd Rhydd Celtaidd.

**5.12** Dylai ymrwymiad diweddar y Llywodraeth i ostwng prisiau trydan diwydiannol helpu i gefnogi cwmnïau yn y cyfnod pontio. Ond mae brys newydd i'r thema hon, o gofio cyflymder y newid a chostau'r cyfnod pontio.

### Datgarboneiddio'r economi ehangach

**5.13** Mae piler olaf Cenhadaeth 1 yn ymwneud â datgarboneiddio ar draws yr economi, er enghraifft trwy ailddefnyddio ac atal gwastraff, a datgarboneiddio'r system drafnidiaeth a'r stoc tai. O ran rheoli gwastraff, mae cyfraddau ailgylchu wedi parhau i wella: ar draws y rhanbarth, roeddent ar gyfartaledd yn 70.1% yn 2023/24, o'i gymharu â 55.7% ddegawd ynghynt[36]. O ran tai, mae'r prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer a ariannwyd drwy'r Fargen Ddinesig wedi gwneud cyfraniad mawr at arddangos technoleg adnewyddadwy ac adeiladu'r gadwyn gyflenwi. Ond mae costau hirdymor sylweddol, a bydd angen buddsoddiad ychwanegol ar gyfer gwaith ôl-osod cynhwysfawr stoc tai cymdeithasol y rhanbarth, yn ôl pob tebyg ar lefel Llywodraeth y DU.

[36] StatsCymru, Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu a chompostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol. Cyfartaledd heb ei bwysoli o'r pedwar awdurdod lleol

## Cenhadaeth 2: Adeiladu sylfaen fusnes gref, gydnerth sydd wedi'i 'gwreiddio'

> **Cenhadaeth y CCERh:**
>
> "Mae busnes yn greiddiol i'n strategaeth hyd at 2030: trwy ehangu cwmnïau presennol a dechrau a denu rhai newydd y bydd cyflogaeth newydd yn cael ei chynhyrchu a sicrhau twf cynhyrchiant. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy - sy'n flaengar ym maes technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi".

**5.14** Nododd y CCERh gryfderau arloesi De Orllewin Cymru, yn enwedig mewn cysylltiad â'r prifysgolion. Fodd bynnag, yn ogystal â thyfu potensial arloesol y rhanbarth, cydnabu hefyd fod yn rhaid i dwf economaidd fod yn eang ei sail, gyda lle i enillion cynhyrchiant ar draws yr economi gyfan. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr asesiad hwn yn parhau i fod yn ddilys: er bod ffocws y Strategaeth Ddiwydiannol ar ddiwydiannau 'blaengar' yn cyd-fynd â rhai o gryfderau'r rhanbarth a bydd yn ffynhonnell bwysig o dwf yn y dyfodol, mae'r rhan fwyaf o stoc cyflogaeth a busnes mewn mannau eraill yn yr economi.

### Tyfu'r elfen arloesol a chyflymu lledaeniad

**5.15** Ers cynhyrchu'r CCERh, bu llwyddiant mewn cyflwyno cyfleusterau ychwanegol i gefnogi busnesau arloesol – er enghraifft, Matrics Arloesi Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn Abertawe, a chyfleuster digidol a thechnoleg 71/72 Kingsway yng nghanol dinas Abertawe, Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe ym Maglan ac adeilad Theatr y Palas gynt yn Abertawe a reolir gan Tramshed Tech. Mae rhagor o fannau arloesi sydd dan ddatblygiad ac yn y cam cynllunio yn cynnwys canolfan iechyd a lles Pentre Awel yn Llanelli (sydd bron â'i chwblhau), man arloesi ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar gampws Singleton Prifysgol Abertawe, a chyfleusterau arfaethedig yng Nglannau Harbwr Port Talbot. Yng Nghaerfyrddin, mae'r Egin wedi dod yn grynodiad pwysig o fusnesau ffilm, teledu a busnesau creadigol eraill sydd wedi'u canoli o amgylch pencadlys S4C.

**5.16** Mae gan y Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel bresenoldeb yn y rhanbarth bellach, yng Nghanolfan Dechnoleg y Bae ym Maglan. Mae hyn yn rhan o rwydwaith Catapwlt ledled y DU, sydd â'r nod o gysylltu busnesau ag ymchwil i helpu i ddatblygu technolegau a all wella cynhyrchiant a chynaliadwyedd. Mae'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel yn ymuno â chyfres o wasanaethau ymchwil a datblygu ac arloesi academaidd a diwydiannol eraill, gan gynnwys TWI a'r cyfleuster SWITCH sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ym Mhort Talbot (gyda chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer cyfleuster gweithgynhyrchu uwch pellach gerllaw). Fel y nodir ym Mhennod 3, mae asedau prifysgol y rhanbarth hefyd yn bwysig, gydag arbenigeddau ym meysydd peirianneg, cyfrifiadura a gwyddor data ac iechyd a gwyddorau bywyd.

**5.17** Felly, bu cryn dipyn o gyflawni ers cyhoeddi'r CCERh – ac mae mwy sydd wedi datblygu'n dda yn y camau cynllunio a datblygu. Mae'r canolfannau a ddisgrifir uchod hefyd yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r Strategaeth Ddiwydiannol genedlaethol, yn ogystal â chyfleoedd rhanbarthol.

**5.18** Fodd bynnag, gwnaed llai o gynnydd wrth ddatblygu'r cysyniad o 'sefydliad ymchwil a thechnoleg rhithwir' a hyrwyddir yn y CCERh. Y cynnig oedd y gellid cydlynu'r cynnig cymorth arloesi ar draws y rhanbarth yn well a'i wneud yn fwy hygyrch, gyda'r nod o "wasanaeth cydgysylltiedig ar draws llywodraeth, addysg uwch a'r sector preifat".

**5.19** Gall llai o gynnydd yn erbyn y maes gweithredu hwn adlewyrchu dirywiad rhai rhaglenni sy'n gysylltiedig ag arloesi ers dirywiad cyllid Ewropeaidd. Ond yn gysylltiedig â ffocws newydd y Strategaeth Ddiwydiannol, a dyfodiad sefydliadau a chyfleusterau newydd yn y rhanbarth (megis Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) efallai y bydd lle i ailystyried dull mwy cydlynol.

### Tyfu cynhyrchiant a chydnerthedd ar draws yr economi

**5.20** Ceisiodd y CCERh ddatblygu system integredig well ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol, lle mae cynnig cymorth cryfach yn gysylltiedig â chyflenwad sgiliau ac adeiladau a rôl y sector cyhoeddus fel prynwr a chomisiynydd gwasanaethau.

**5.21** Ers cynhyrchu'r CCERh, bu cysondeb yng nghraidd y cynnig cenedlaethol, a gyflwynir drwy Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru, ac mae tystiolaeth bod hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder i'r farchnad[37]. Galluogodd Cronfa Ffyniant a Rennir y DU i hyn gael ei ategu ar lefel leol gydag ystod o gynhyrchion arbenigol a chymorth, yng nghyd-destun strategaeth gyffredinol ar gyfer y rhanbarth. O 2026 ymlaen, disodlir UKSPF gan Gronfa Twf Lleol newydd, nad yw ei rheolaeth wedi'i phennu eto. Ar gyfer De Orllewin Cymru, mae hyn yn rhoi cyfle i adeiladu ar lwyddiant rhaglenni presennol, gan gyrraedd ystod eang o fusnesau, a'i gysylltu â'r angen i ysgogi dwysedd busnesau, cyfraddau dechrau busnesau ac entrepreneuriaeth, a chydnerthedd ac addasrwydd i newid.

[37] Llyr ap Gareth a Felix Milbank (2025), Meithrin Twf Busnesau Bach: Dyfodol Cymorth Busnes yng Nghymru, FSB

## Cenhadaeth 3: Tyfu a chynnal cynnig ‘profiad’ De Orllewin Cymru

**Cenhadaeth y CCERh:**

“Mae gan Dde Orllewin Cymru amgylchedd gwych a chynnig ‘ansawdd bywyd’ unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i’r rhanbarth, ac yn un y mae’n rhaid i ni ei amddiffyn a’i wella. Byddwn yn gwneud De Orllewin Cymru yn adnabyddus am ansawdd ac ehangder ei ‘gynnig profiad’, gan ddod ag ansawdd amgylcheddol trefol a gwledig ynghyd, ‘ansawdd bywyd’ a diwylliant. Bydd hyn yn cefnogi economi ymwelwyr gwerth uchel - ond bydd hefyd mewn perchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o’n cynnig buddsodd”.

**5.22** Cymerodd y CCERh safbwynt eang ar y cysyniad o’r ‘economi brofiad’, gan ei ymestyn i gynnwys ansawdd bywyd ac ansawdd lle, yn ogystal â thwristiaeth. Cydnabu fod ansawdd y cynnig i ymwelwyr ac apêl De Orllewin Cymru fel lle i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo i gyd yn gynhenid gysylltiedig. Nododd hefyd fod sawl tueddiad yn yr economi ymwelwyr yn cyd-fynd â chynnig y rhanbarth – yn benodol, y diddordeb cynyddol mewn cynaliadwyedd a’r awydd am brofiadau ‘dilys’; ac amlygodd y cyfle y mae gweithio o bell yn ei gyflwyno i gadw talent a denu demograffeg ehangach i’r rhanbarth.

**5.23** Bu llwyddiant wrth ddatblygu seilwaith profiad De Orllewin Cymru. Agorodd Arena Cymdeithas Adeiladu Abertawe yn swyddogol ym mis Mawrth 2022, fel rhan o raglen adfywio uchelgeisiol a pharhaus canol y ddinas, ac mae wedi denu tua 750,000 o ymwelwyr yn ei dair blynedd gyntaf. Bu buddsoddiad pellach hefyd yn y cynnig treftadaeth ac ymwelwyr ym Mhentywwyn a Gwaith Copr Hafod Morfa yn Abertawe. Er bod canol trefi a dinasoedd y rhanbarth wedi wynebu heriau sylweddol ers y pandemig, mae’r holl ganol trefi a dinasoedd wedi gweld buddsoddiad gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, neu Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, gan gefnogi arallgyfeirio a gwelliannau amgylcheddol a threftadaeth. Ar draws y rhanbarth, bu ffocws hefyd ar ‘greu lleoedd’, yn y prif ganolfannau ac mewn cymunedau llai, gan ymateb i agenda creu lleoedd Llywodraeth Cymru ac yn unol â’r egwyddorion a nodir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru.

**5.24** Rhoddodd y CCERh bwyslais hefyd ar hyrwyddo De Orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer ymwelwyr a buddsoddi. Mae hyn ar y gweill, gyda gwefan fuddsoddi newydd bellach wedi’i lansio. Gan edrych i’r dyfodol, dylai fod cyfleoedd i alinio â rhaglen newydd Brand Cymru o’r flwyddyn nesaf ymlaen.

# 6. Tri hanfod sylfaenol

**Yn sail i'r tair Cenhadaeth a nodwyd yn y CCERh, rydym wedi nodi tri 'hanfod sylfaenol': themâu a fydd yn cefnogi'r holl Genadaethau ac sy'n hanfodol ar gyfer twf cynhyrchiant hirdymor. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflogaeth a sgiliau, cysylltedd a thrafnidiaeth gynaliadwy, a safleoedd ac adeiladau. Mae'r bennod hon yn nodi'r rhain, gan egluro'r cysylltiadau â'r Cenadaethau craidd.**

## Cyflogaeth a sgiliau

### Cynllunio ar gyfer sgiliau'r dyfodol

**6.1** Dylai cyflawni'r tair Cenhadaeth arwain at gynnydd net yn nifer y swyddi yn Ne Orllewin Cymru: mae'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn gosod targed o 11,500 o swyddi sy'n gysylltiedig â gweithgaredd o amgylch Aberdaugleddau a Phort Talbot yn unig. Bydd hyn yn creu cyfleoedd newydd i drigolion yn y rhanbarth, ond bydd swyddi newydd yn aml yn gysylltiedig â gofynion sgiliau gwahanol. Ar yr un pryd, bydd gan y 'tueddiadau trawsnewidiol' a amlinellir ym Mhennod 2 effeithiau sylfaenol ar ofynion sgiliau'r gweithlu a'r galw am gyflogaeth ar draws yr economi, gan fod (er enghraifft) deallusrwydd artiffisial yn awtomeiddio rhai tasgau (sy'n gynyddol gymhleth), ond yn agor cyfle ar gyfer diwydiannau newydd a chreu swyddi, ac wrth i bob cyflogwr yn y pen draw newid i sero net.

**6.2** Yn rhanbarthol mae'r rhaglen **Sgiliau a Thalent**, a ariennir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, yn ceisio deall a hyrwyddo'r sgiliau fydd eu hangen i gefnogi prosiectau a ariennir gan y Fargen Ddinesig, gan ganolbwyntio ar feysydd ynni, digidol, adeiladu gwyrdd, gweithgynhyrchu clyfar ac iechyd a lles. Yn ogystal â mapio'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau, mae'r rhaglen wedi ariannu cyfres o brosiectau peilot i gyflwyno dulliau newydd o hyfforddi ac i godi ymwybyddiaeth. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd yn bwysig gwerthuso llwyddiant y prosiectau peilot, nodi ffyrdd y gellir eu tyfu a/neu eu prif ffrydio, ac adeiladu arnynt wrth i gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg.

**6.3** Yn fwy cyffredinol, ers y CCERh gwreiddiol bu newid sylweddol yn y ffordd y mae addysg uwch a phellach yn cael ei hariannu a'i threfnu, yn dilyn sefydlu dull mwy integredig o addysg drydyddol gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i ddatblygu "*llwybrau cliriach a mwy cydlynol ar draws y sector addysg drydyddol*" i gefnogi blaenoriaethau sgiliau a nodwyd[38]. Er bod y dyhead hwn wedi'i nodi ar lefel gymharol uchel ar hyn o bryd, bydd yn bwysig dros y pum mlynedd nesaf ei drosi'n newidiadau ymarferol ar lefel ranbarthol.

[38] Medr (2024), Cynllun Strategol 2025-30

**6.4** Gan adlewyrchu gweithlu sy'n heneiddio a'r dirywiad graddol yn y boblogaeth 'oedran gweithio' dros y tymor hir, mae'n debyg y bydd elfen allweddol o hyn yn cynnwys ailhyfforddi ac uwchsgilio pobl sydd eisoes yn y gweithlu, gydag angen cynyddol am ddarpariaeth cyrsiau byr a hyblyg.

### Lleihau'r bwlch cyflogaeth

**6.5** Yn y cyfamser, gwyddom fod, mewn egwyddor, gapasiti sbâr yn y farchnad lafur ranbarthol: mae cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth islaw cyfartaledd y DU, ac mae'r bwlch gweithgarwch economaidd gyda gweddill y DU wedi tyfu ers y pandemig (er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn lleihau'r gwahaniaeth yn y blynyddoedd blaenorol). Fel y nodwyd ym Mhennod 2, byddai cynyddu'r gyfradd gweithgarwch economaidd ranbarthol i gyfartaledd y DU yn dod â thua 21,000 o bobl i'r gweithlu.

**6.6** Mae hyn hefyd yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth y DU: er y bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol trwy gynnydd yn y stoc o gyfleoedd cyflogaeth, mae penderfynyddion ehangach anweithgarwch economaidd a diweithdra (megis afiechyd meddwl a chorfforol, hyd amser allan o'r farchnad lafur, diffyg sgiliau trosglwyddadwy, ac ati) yn gymhleth ac yn aml mae angen mynd i'r afael â hwy trwy ddull unigol. Bydd deall cyfansoddiad anweithgarwch economaidd a chyfrannu at nodau *Cynllun Cael Prydain i Weithio* trwy adeiladu ar brofiad blaenorol (megis y rhaglen Gweithffyrdd +) yn bwysig dros y pum mlynedd nesaf. Nid oes prinder profiad diweddar, wedi'i werthuso, yng Nghymru ac o (er enghraifft) awdurdodau cyfun Lloegr: fel cam gweithredu cychwynnol, dylai fod lle i dynnu ar wersi'r dulliau hyn.

## Cysylltedd cynaliadwy

### Cysylltedd digidol

**6.7** Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn pontio'r bwlch cysylltedd digidol rhwng cefn gwlad De Orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn bennaf) a gweddill y DU. Mae'r cynnydd hwn ers cynhyrchu'r CCERh yn dangos cyflymder newid mewn technoleg a'r cyflymder y mae defnyddwyr yn addasu i gyflymderau gwell. Bydd angen i'r rhanbarth sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gystadleuol - ac nad yw cymunedau'n cael eu gadael ar ôl - wrth i'r rhanbarthau hynny sydd ar flaen y gad o ran buddsoddiad masnachol symud ymlaen.

### Trafnidiaeth


**6.8** Cyhoeddwyd strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, *Llwybr Newydd*, yn 2021, gan nodi'n benodol ragdybiaeth o blaid teithio llesol a chynaliadwy, ac yn erbyn cynlluniau ffyrdd newydd (er, yn Ne Orllewin Cymru, mae rhai cynlluniau blaenoriaeth uchel yn cael eu cyflawni, megis gwelliannau i'r A40 yn Sir Benfro, ffordd osgoi newydd ar gyfer Llandeilo ac - ychydig y tu hwnt i'r rhanbarth - cwblhau deuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd). Ers paratoi'r

CCERh mae nifer o welliannau i gyfnewidfeydd a gwasanaethau rheilffyrdd wedi'u cyflawni, ac mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft wedi'i baratoi gan y CJC.

**6.9** Dros y tymor canolig i'r tymor hwy, mae **cyfleoedd ar gyfer dull uchelgeisiol o ymdrin â seilwaith rheilffyrdd y rhanbarth** a'i integreiddiad â mathau eraill o drafnidiaeth. Mae cysyniad **Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru** wedi parhau i gael ei ddatblygu ers i'r CCERh gael ei gynhyrchu. Mae cynlluniau a ddatblygwyd gan Trafnidiaeth Cymru yn rhagweld y Metro fel un sy'n ymgorffori gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd presennol, gwelliannau i goridorau bysiau a gorsafoedd newydd (a ddangosir isod), gyda - yn y tymor hwy - y potensial i ymestyn seilwaith rheilffyrdd ymhellach ar hyd Dyffrynnoedd Aman, Nedd a Dulais gan ddefnyddio llinellau a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion diwydiannol.


**6.10** Wrth i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu ymhellach, mae lle i wneud yr **achos datblygu economaidd dros fuddsoddi yn y Metro**. Mae hyn yn debygol o gynnwys tair elfen (yn ogystal â buddion amgylcheddol): yn gyntaf, mynediad gwell at gyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys trwy gysylltedd â safleoedd strategol (megis Felindre) sydd ar hyn o bryd ond yn hygyrch ar y ffordd; yn ail, cysylltedd cyflymach o ganlyniad i lai o dagfeydd; ac yn drydydd, y cwmpas ar gyfer 'datblygiad sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth gyhoeddus', wrth i dai a mannau masnachol gael eu datblygu ar ddwyseddau uwch o amgylch cyfnewidfeydd rheilffyrdd. O ystyried y ffocws yn y CCERh ar adfywio canol trefi a dinasoedd fel rhan o Genhadaeth yr 'economi brofiad', dylai'r elfen olaf hon fod yn bwysig, yn enwedig (er nad yn gyfan gwbl) yn Abertawe. Mae cyflymder cyflawni Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd bellach ar y gweill ac sydd â chynlluniau datblygedig ar gyfer ehangu, yn rhoi syniad o botensial naratif economaidd cryf, yn ogystal â thrafnidiaeth.

**Ffigur 6-1: Blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Metro Bae Abertawe a De Orllewin Cymru**






SQW




*Ffynhonnell: Trafnidiaeth Cymru*

## Safleoedd ac adeiladau

**6.11** Mae gan Dde Orllewin Cymru stoc o safleoedd strategol sydd â chapasiti ar gyfer defnyddiau economaidd ar raddfa fawr. Mae rhai o'r rhain wedi'u cysylltu'n agos â chyfleoedd diwydiannol craidd y rhanbarth, megis y gyfres o safleoedd mawr ym Maglan a Glannau Port Talbot. Fodd bynnag, **mae dod â'r rhain ymlaen yn heriol oherwydd methiant eang y farchnad**, gan fod gwerthoedd tir cymharol isel ac (mewn llawer o achosion) costau adfer uchel iawn yn gwneud datblygiad yn anhyfyw heb ymyrraeth. O ystyried cyfleoedd y rhanbarth mewn perthynas â Chenhadaeth 1, mae **cyfyngiadau capasiti'r grid trydan** a chostau cysylltiadau a seilwaith arall yn dwysau'r heriau hyn. Mae ymchwil ehangach yn dangos hefyd yr anhawster o sicrhau datblygiad ar safleoedd llai, ac yng nghanol trefi a dinasoedd, heb gymhorthdal.

**6.12** Fodd bynnag, mae hanes llwyddiannus o gyflawni, gan gynnwys trwy fentrau ar y cyd â'r sector preifat, a thrwy Gronfa Ffyniant a Rennir y DU, ac mae'r awdurdodau lleol wedi gweithredu cynlluniau Grant Datblygu Eiddo i helpu i ddod â datblygiad ar raddfa lai ymlaen. Bydd y Gronfa Sbarduno a weithredir fel rhan o'r Porthladd Rhydd Celtaidd hefyd yn helpu, ac mae ymagwedd gadarnhaol at ddatblygu safleoedd strategol gan Lywodraeth Cymru (fel y dangosir yng nghaffaeliad diweddar Llywodraeth Cymru o Barc Ynni Baglan). Yn y cyd-destun hwnnw, croesawir y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU am Gronfa Safleoedd Strategol newydd.

## Meysydd allweddol ar gyfer gweithredu yn y pum mlynedd nesaf

- Parhau i gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau'r rhanbarth yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun y tair Cenhadaeth.
- Cryfhau'r ffocws ar fynediad at gyflogaeth a llwybrau i weithgarwch economaidd, gyda'r nod o gau'r bwlch cyfradd cyflogaeth gyda gweddill y DU, a chyfrannu at nod Cael Prydain i Weithio.
- Ochr yn ochr â chyflawni'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol newydd, adeiladu'r achos economaidd dros fuddsoddiad trawsnewidiol tymor hwy yn seilwaith rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus y rhanbarth, lle gall gefnogi mynediad at gyflogaeth, agor lleoliadau twf allweddol a sbarduno buddsoddiad a datblygiad newydd sy'n gysylltiedig â chysylltedd gwell.
- Gwneud yr achos dros fuddsoddi i ddatgloi safleoedd ac adeiladau strategol, yn enwedig yn y lleoliadau hynny sy'n hanfodol i gyflawni'r tair Cenhadaeth rhanbarthol. Bydd hyn yn golygu dull a rennir gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan archwilio'r potensial ar gyfer strwythurau a mecanweithiau partneriaeth newydd i gyflwyno safleoedd strategol, fel cyllid i bontio'r bwlch hyfywedd, yn ogystal â mynd i'r afael â chyfyngiadau sylweddol o ran cyflenwad pŵer.

# 7. Llwybrau i fuddsoddi a chyflawni

**Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol bellach wedi'i sefydlu'n dda ac mae hanes llwyddiannus o gyflawni prosiectau, gyda buddsoddiadau mawr pellach yn dod ymlaen. Mae'r bennod hon yn nodi'r dull ar gyfer cyflawni a gwneud y mwyaf o fuddsoddiad dros weddill cyfnod y CCERh.**

## Cryfhau'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol

7.1 Sefydlwyd y CJC yn 2022 i gefnogi cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ar draws y rhanbarth[39]. Y CCERh oedd un o'r strategaethau ar y cyd cyntaf a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor. Yn ogystal, mae'r CJC wedi mabwysiadu'r Strategaeth Ynni Ranbarthol, ac yn 2025 cynhaliwyd ymgynghoriad ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft. Bydd hefyd yn datblygu Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol, gan gyd-fynd â *Cymru'r Dyfodol*.

7.2 Mabwysiadodd y CJC Gynllun Corfforaethol yn 2023. Mae hwn yn ymgorffori'r weledigaeth ganlynol, sy'n tynnu ar y CCERh a dogfennau allweddol eraill, ac sy'n cyd-fynd ag ef:

**Gweledigaeth y Cyd-bwyllgor Corfforaethol:**

"Erbyn 2035 bydd De Orllewin Cymru yn fan lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn rhanbarth cydnerth, cynaliadwy, mentrus, uchelgeisiol a cydnerth i'r hinsawdd sy'n cael ei wasanaethu gan seilwaith digidol o'r radd flaenaf ac sydd ar y trywydd iawn i gyflawni economi carbon sero net erbyn 2050, ar ôl cyflawni ei darged datgarboneiddio sector cyhoeddus eisoes. Mae'r rhanbarth yn rhan annatod o Gymru ac yn gwneud cyfraniad cryf i Gymru gyfan.

Bydd yn rhanbarth nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol trwy dwf cynaliadwy. Bydd ganddo leoedd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau, tra bydd pobl hefyd yn byw ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ffocws ac yn sbardun ar gyfer twf cynaliadwy. Hyrwyddir ffyniant, arloesedd a diwylliant o fewn y rhanbarth a chydnabyddir yn llawn bwysigrwydd sector amaethyddol cynaliadwy ac ymgysylltiedig.

Rhanbarth llewyrchus, cydnerth a theg sy'n manteisio i'r eithaf ar ei botensial alltraeth, mae De Orllewin Cymru yn fan lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac mae'r rhanbarth yn parhau i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at y targed cenedlaethol o gyflawni miliwn o siaradwyr

[39] Aelodaeth y CJC yw Arweinwyr etholedig y pedwar awdurdod lleol a chynrychiolwyr Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro. Gwahoddir cynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru De Cymru a Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda i fynychu hefyd

> Cymraeg erbyn 2050. Mae cydweithio effeithiol rhwng gwneuthurwyr penderfyniadau a gwneuthurwyr newid y rhanbarth o bob sector gan gynnwys y diwydiant preifat yn cael ei ddangos gan y ffaith bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru yn parhau i gyflawni ei holl swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r rhanbarth yn parhau i deimlo buddion portffolio buddsoddi Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
>
> Mae'r angen i wella lles cenedlaethau'r dyfodol ac ecosystemau wedi'i wreiddio'n gadarn mewn strwythurau gwneud penderfyniadau sy'n gytbwys a chynhwysol ac sy'n cydnabod yr angen i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a lleihau llygredd gan arwain at leoedd gydag ecosystemau bioamrywiol, cydnerth a chysylltiedig. Mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach gyda system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon a lle mae teithio'n gynaliadwy".

*Ffynhonnell: CJC De Orllewin Cymru*

7.3 Yn gynharach yn 2025, sefydlwyd Bwrdd Cynghori'r Sector Preifat i gefnogi'r CJC. Mae'r Bwrdd wedi bod yn ymwneud â datblygu'r Adolygiad Canol Tymor hwn a bydd ganddo rôl bwysig mewn darparu llais busnes i lywio penderfyniadau'r CJC a darparu ymyriadau datblygu economaidd allweddol.

## Datblygu'r biblinell prosiectau

7.4 Ochr yn ochr â'r CCERh, paratowyd 'piblinell prosiectau', sy'n cynnwys cyfres o achosion busnes cryno ar gyfer ymyriadau a fydd yn cefnogi'r Uchelgeisiau a'r Cenadaethau. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau ar wahanol gamau datblygu, gan gynnwys rhai a oedd wedi'u hariannu'n llawn a bod y gwaith o'u cyflawni naill ai ar y gweill neu ar fin digwydd, a rhai a oedd yn gysyniadau prosiect cam cynnar. Ers hynny, mae cyfleoedd newydd pwysig wedi dod ymlaen, er enghraifft yn gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd Celtaidd.

7.5 Mae'r biblinell prosiectau wedi'i chadw'n 'fyw'. Ochr yn ochr â'r Adolygiad Canol Tymor hwn, mae'r biblinell hefyd wedi'i hadolygu'n llawn, gyda'r nod o gyfuno ymyriadau penodol mewn cyfres o raglenni y gellir eu monitro ac ychwanegu atynt dros amser, ac a all sicrhau cyfres barod o gynigion buddsoddi i ymateb i gyfleoedd.

## Gwneud yr achos dros fuddsoddiad ar raddfa yn y dyfodol

7.6 Drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, mae awdurdodau lleol De Orllewin Cymru wedi dangos hanes cryf o gyflawni rhaglen twf economaidd fawr ar y cyd dros gyfnod estynedig – ac mae holl brosiectau'r Fargen Ddinesig bellach naill ai wedi'u cwblhau neu ar y ffordd i'w cyflawni. Ategwyd hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chyfres o raglenni mawr eraill, naill ai'n cael eu darparu ar y cyd neu o fewn un o'r awdurdodau lleol – er enghraifft y Porthladd Rhydd Celtaidd, Cronfa Pontio Tata, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac amryw o raglenni lleol.

**7.7** Gan edrych i'r dyfodol, mae angen cynyddu gwerth a chydlynu cronfeydd presennol, a sicrhau buddsoddiad ychwanegol. **Bydd hyn o fewn amgylchedd cyllido cyhoeddus sydd wedi'i gyfyngu mewn termau ariannol cyffredinol, ond lle mae aliniad strategol cadarnhaol iawn â blaenoriaethau a chryfderau De Orllewin Cymru.**

**7.8** Gan adeiladu ar lwyddiant y Fargen Ddinesig a buddsoddiadau eraill, nododd y CCERh uchelgais i sicrhau "**cronfa fuddsoddi ranbarthol ddatganoledig**", a fyddai'n cynnig y gallu i'r rhanbarth ddenu cyllid ychwanegol a dod â phrosiectau ymlaen ar sail hyblyg dros y tymor hir. Bellach mae cyfres o gronfeydd buddsoddi datganoledig ledled y DU, ac mae rhai ohonynt (gan gynnwys y Gronfa Fuddsoddi Ehangach yn Rhanbarth Prifddinas Caerdydd) wedi'u strwythuro i roi enillion ariannol rhannol ar fuddsoddiad, yn ogystal ag enillion economaidd a chymdeithasol, yn dibynnu ar natur y prosiect. Byddai hyn yn gofyn am gapasiti ychwanegol, ond mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i drefniadau tebyg pellach, ac efallai y bydd cyfle i gyflwyno'r achos.

**7.9** Bydd angen cyflwyno'r achos dros gronfa fuddsoddi ddatganoledig yn ofalus ac yn benodol, gan ddangos y gwerth ychwanegol y byddai hyn yn ei ddwyn y tu hwnt i weithgarwch ar lefel leol a rhaglenni Llywodraeth y DU a Chymru. Gan adeiladu ar y dadansoddiad yn gynharach yn y papur hwn, a phrofiadau rhanbarthau eraill, mae'n debygol y bydd ffocws ar:

- Ddatblygu **safleoedd ac adeiladu** (gan gydnabod y bydd maint yr her hyfywedd mewn perthynas â llawer o safleoedd strategol allweddol y rhanbarth yn galw am fuddsoddiad grant sylweddol, er y gallai fod cyfleoedd i gael enillion neu enillion rhannol ar fuddsoddiad mewn lleoliadau eraill).
- **Buddsoddiad busnes**, lle gall hyn ysgogi buddsoddiadau ychwanegol gan y sector preifat a lle mae'n ategu'r gefnogaeth a gynigir trwy sefydliadau presennol megis Banc Datblygu Cymru.
- Gweithgareddau sy'n **ategol i fuddsoddiad trafnidiaeth strategol**, er enghraifft mewn dod â datblygiadau newydd ymlaen ochr yn ochr â chysylltiadau trafnidiaeth presennol ac arfaethedig, gan sbarduno'r galw am drafnidiaeth gynaliadwy a chyhoeddus.

## Monitro cynnydd

**7.10** Er ei bod yn ddefnyddiol monitro perfformiad yr economi ehangach i roi darlun cywir o'r cyd-destun, mae data economaidd bob amser yn cael ei gyhoeddi gydag oedi, a dim ond yn y tymor hwy y bydd rhai o'r ymyriadau strategol a gymerir i gefnogi'r tair Cenhadaeth yn creu effaith economaidd.

**7.11** Fodd bynnag, nododd y CCERh gyfres o fesurau perfformiad y gellid mesur cynnydd yn eu herbyn ar lefel ymyrraeth. Nid yw'r rhain yn cael eu gwneud yn systematig ar draws prosiectau yn Ne Orllewin Cymru ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd bod ymyriadau'n cael eu cyflwyno trwy ystod o raglenni, yn hytrach nag un gyfunol. Mae rhai prosiectau a nodwyd

hefyd mewn cam cynnar. Fodd bynnag, yn gysylltiedig ag adolygiad y biblinell prosiectau, byddwn yn sefydlu cyfres gyson o ddangosyddion a fydd yn darparu canllaw i gynnydd ar gyfer y CJC, gan dynnu ar brofiad diweddar o fonitro rhaglenni ar gyfer Cronfa Ffyniant a Rennir y DU. Nodir y mesurau perfformiad dangosol arfaethedig isod:

**Tabl 7-1: Mesurau perfformiad dangosol**

| Dangosydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Buddsoddiad preifat | Buddsoddiad preifat ychwanegol wedi'i sicrhau yn y rhanbarth o ganlyniad i gefnogaeth gyhoeddus drwy'r CCERh |
| Gwerth ychwanegol gros | GYG ychwanegol amcangyfrifedig a gynhyrchir o ganlyniad i fuddsoddiad |
| Creu a goroesiad cwmnïau | Busnesau newydd yn dechrau o ganlyniad i weithgarwch a gefnogir gan y CCERh a chyfraddau goroesi dros amser |
| Swyddi | Swyddi a grëir ac a ddiogelwyd o ganlyniad i fuddsoddiad. Mae'r CCERh yn pwysleisio ansawdd swyddi (yn unol â'r Contract Economaidd) a dylid adlewyrchu hyn yn y mesur perfformiad (e.e. cyflogaeth ar neu uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn cael ei gynnal dros amser). |
| Mynediad at gyflogaeth | Pobl yn dechrau cyflogaeth o ganlyniad i ymyrraeth |
| Arloesedd | Ymchwil a datblygu cynhyrchion, nwyddau a gwasanaethau newydd o ganlyniad i ymyrraeth.<br>Mabwysiadu cynhyrchion neu brosesau 'newydd i'r cwmni' o ganlyniad i ymyrraeth |
| Gostyngiadau carbon | Arbedion CO2 o ganlyniad i fuddsoddiad |
| Newid moddol | Cynyddu siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus/cynyddu'r defnydd o deithio llesol o ganlyniad i fuddsoddiad. |
| Gwariant ymwelwyr | Cynyddu gwariant ymwelwyr o ganlyniad i fuddsoddiad (wedi'i asesu trwy werthusiad tymor hwy) |
| Gwerth ychwanegol gros | Amcangyfrif o'r GYG ychwanegol a gynhyrchwyd o ganlyniad i fuddsoddiad (wedi'i asesu trwy werthusiad tymor hwy. |

SQW

## Cyswllt

Rhagor o wybodaeth:

**Ross Gill**
*Is-Cyfarwyddwr, SQW*
Ff: +44 (0)7837 872705
E: rgill@sqw.co.uk

2nd Floor East
Greenhill House
90-93 Cowcross Street
Llundain
EC1M 6BF

**www.sqw.co.uk**

## Amdanom ni

### SQW Group

Mae SQW ac Oxford Innovation yn rhan o SQW Group.
**www.sqwgroup.com**

### SQW

Mae SQW yn brif ddarparwr ymchwil, dadansoddi a chyngor ar ddatblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae ei wasanaethau craidd yn cynnwys gwerthuso, asesu effaith economaidd, ac arfarnu; asesu galw, dichonoldeb a chynllunio busnes; ymchwil a dadansoddi economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; datblygu trefniadaeth a phartneriaeth; datblygu polisi, strategaeth a chynllunio gweithredu.
**www.sqw.co.uk**